

FFERMWYR BÎFF GORAU PRYDAIN



Yn y llun gwelir Iwan, Aled a Llifon wedi derbyn y tlws

Aled ac Iwan Evans, Meidrim yw enillwyr gwobr Ffermwyr Biff gorau am y flwyddyn 2021 gyda'r 'Farmers Weekly'. Mae'r ddau frawd yn ffermio mewn partneriaeth ers chwe mlynedd yn fferm Rest, Henllan Amgoed a Cefnwrth, Meidrim. Yn eu cynorthwyo mae Llifon Davies sydd â rôl bwysig yn y busnes. Cawsant eu cyflwyno gyda'r tlws mewn seremoni yn Llundain ddechrau Hydref. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant.

Gŵyl y Geni 2021

Nadolig! Mae'n dod â'i alwad - oesol
At breseb ein Ceidwad.
O bwn ein taith, Mab ein Tad
Â'n cyrraedd ni mewn cariad.

Wyn Owens

TIGNES I'R TY

Ar Dachwedd y 7fed yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin, cynhaliwyd diwrnod sgrinio'r galon gan yr elusen Calon Heart Screening. Roedd Nerys Davies wedi beicio 1029 milltir o'i chartref yn Tignes, Ffrainc i'w chartref genedigol yn Nhrellech fel rhan o ymgyrch Tignes i'r Ty. Cyflwynodd Nerys (chwith yn y llun) sicc o **£12,706** i'r elusen ar ôl cwblhau'r her. Bu 60 person yn ffodus o gael prawf ar y galon.



Beth mae sgrinio calon yn ei gynnwys? Gwneir ECG (electrocardiogram) lle cofnodir rhythm a gweithgaredd trydanol y galon gan ddefnyddio synwryddion trydanol ar y croen. Bydd ymgynghoriad yn dilyn gyda chardiologydd i adolygu'r canlyniadau. Efallai y bydd angen profion pellach gan gynnwys ecocardiogram a sgwrs bellach gyda arbenigwr(aig).

Mae'r sgrinio'n gyflym ac yn hawdd, a gallai arbed eich bywyd! Gellir canfod, a thrin abnormaleddau cardiac. Mae'n well gwybod!! Ewch i gael eich profi!! I gael mwy o wybodaeth, ewch i heartscreening.wales

Llongyfarchiadau mawr iddi ar ei champ arwrol.

NADOLIG LLAWEN A
 BLWYDDYN NEWYDD DDA
 I HOLL DDARLLENWYR
 YCARDI BACH

Y CARDI BACH

Golygydd:	Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cadeirydd a Dosbarthwr Is-gadeirydd:	Eurfyl Lewis 01994 419495 Iola Wyn 07870 100831
Ysgrifennydd:	Beti Wyn James 01994 230966
Trysorydd, Ffotograffydd, Dosbarthwr drwy'r post a Hysbysebion:	Roy Llewellyn 01994 448283
Trysorydd y Clwb '200':	Rhian White 01994 231338
Cysodwyr:	Wyn a Meirwen Evans 01994 448447
Cystadleuaeth	John Arfon Jones 01994 240536
Cornel y Dysgwyr:	Albie Abbott 01239 831641
Tudalen y Plant: Llewyrch i'm Llwybr:	Llinos Mair Thomas
Cornel Coginio:	Winnie James 01239 831754
Cornel Llên:	Nansi Evans 01994 448392 Rhoswen Llewellyn 01994 448283
Cornel Garddio:	John Davies 01994 240059


Newyddion, Lluniau, Erthyglau
a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
o angenrheidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn a
gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG



Colofn y Mis

Wrth i mi ysgrifennu hwn, rydw i'n paratoi ar gyfer pen-blwydd arall. Ond y tro hwn, rydw i'n camu i mewn i ddegawd newydd. Peth rhyfedd yw'r hanner cant. Yn Gymraeg, mae'n eich taro chi'n syth eich bod chi hanner ffordd at ganmlwydd oed, os yn ddigon ffodus i gyrraedd y garreg filltir honno. Dyw "Fifty" yn y Saesneg ddim cweit mor onest. Felly mae'n bryd i fi wynebu'r gwirionedd.

Ac rydw i wedi bod yn ceisio cofio'r pen-blwyddi eraill ar ddechrau degawd newydd. Yn 10 oed, fe ges i wn, na nid i chwarae cowbois. Ar ôl hir aros, fe ges i dyllau yn fy nghlustiau yn siop Mrs Pegg yn Bow Street. A dwi'n ei chofio hi'n rhybuddio y byddai angen i fi droi'r clustdlysau mewn cylchoedd yn rheolaidd, rhag i'r clustiau fynd yn glwyfus.

Dydwy i ddim yn credu i mi gael unrhyw boen wrth i mi droi'n 20 oed, a finne'n fyfyrwraig yn byw gyda phedair o ferched eraill mewn tŷ ar Elm Street yng Nghaerdydd. Roedden ni'n hunllef i'n cymdogion mae'n siŵr! Ond does gen i ddim cof clir o ddathlu'r 20, yn anffodus. Mae'n bur debyg mod i'n rhy brysur yn astudio Dafydd ap Gwilym ar gyfer fy ngradd!

Rydw i'n cofio'r pen-blwydd yn 30 yn dda iawn. Roedd Lleu wedi cael ei eni union fis ynghynt, a finne felly yn llawer rhy flinedig i ddathlu. Fe ges i ginio bach mewn tafarn, cyn rhuthro nôl adre i fwydo.

Roedd y 40 yn fwy o ddathliad, gyda pharti yn Nhalacharn, a ninne wedi setlo yn Sanclêr erbyn hynny. Ond roedd gen i glamp o lygad ddu ar gyfer y dathliad hwnnw, wedi i fi gerdded i mewn i arwydd Dim Mynediad ar Heol Awst yng Nghaerdydd... yng nghanol dydd. Os edrychwch chi'n ofalus, fe sylwch fod coesau'r arwydd hwnnw wedi eu hymestyn oherwydd fy anffawd i.

Wrth gyrraedd y 50, rydw i wedi gorfod ymestyn rhywbeth arall - fy modrwy ddyweddio.

Mae'n rhaid cydnabod weithiau nad oes modd dychwelyd i'r gorffennol, ac rydw i o'r diwedd wedi derbyn na fydd y fodrwy ddyweddio yn ffitio ar fy mys eto, yn y maint presennol. Felly dyna fy anrheg pen-blwydd i fy hun - ehangu'r fodrwy!

Ac wedi dathliad y pen-blwydd, fe fydd dathliadau eraill ar y gorwel, gyda'r Nadolig eleni yn gyfle i'r teulu ddod ynghyd gobeithio. Mae Covid-19 yn dal i reoli'n bywydau yn anffodus, a fedrwn ni ddim llaesu dwylo. Ond mae gobaith eleni. Mae'r seren fymryn yn ddisgleiriach.

Ac felly, gai ddymuno Nadolig Llawn i chi a Blwyddyn Newydd yn llawn anturiaethau, gyda'n mygydau wastad wrth law.

Iola Wyn, San Cler

Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol 2021

Dewisiadau amhosibl mam

Gall tymor y Nadolig fod yn llawn dewisiadau anodd i deuluoedd wrth iddynt baratoi ar gyfer dathlu'r Wyl. Ac onid y fam sy'n gorfod gwneud y dewisiadau hynny yn amlach na pheidio!

Wrth gwrs, mae yna deuluoedd yng Nghymru fydd â'u dewisiadau yn fwy anodd. Pobl y mae'r Nadolig yn straen arnynt am sawl rheswm - salwch, unigrwydd, tlodi.

Ond yn Ne Swdan mae dewisiadau amhosibl i'w gwneud pob un dydd.

Cyn i'w chymuned dderbyn pwmp dŵr gan bartner Cymorth Cristnogol, roedd gofyn i Adut ddewis rhwng dŵr budr neu ddim dŵr o gwbl i'w phlant. Am ddewis!

'Ond mae bywyd Adut a'i chymdogion wedi ei drawsnewid. Trwy waith partner lleol Cymorth Cristnogol, mae dŵr glân ar gael trwy'r twll turio a'r pwmp llaw.

Y Nadolig hwn, gallwch helpu mwy o gymunedau fel rhai Adut.

Am fwy o wybodaeth am Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol, ewch i :

<https://www.christianaid.org.uk/appeals/key-appeals/christmas-appeal>

GOHEBWYR LLEOL

<u>ALMA:</u>	Margaret Evans 01994 230761
<u>BANCYFELIN:</u>	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
<u>CAPEL CANA / BANCYFELIN</u>	Parch. Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
<u>BLAENWAUN:</u>	Tegwen James 01994 448223
<u>CAPEL MORIAH (Blaenwaun)</u>	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
<u>CEFNYPANT:</u>	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
<u>CLUNDERWEN:</u>	Lyns Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
<u>CWMBACH:</u>	Jane Evans 01994 448790 teulujames@btinternet.com
<u>CWM MILES:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>CWMFELIN</u>	Nansi Evans
<u>MYNACH:</u>	01994 448392
<u>EFAILWEN:</u>	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
<u>GELLIWEN:</u>	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
<u>HENDY-GWYN:</u>	Y Parch. Guto Llywelyn (Newyddion Tabernacl) 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
<u>HENLLAN - FALLTEG:</u>	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
<u>LOGIN:</u>	Meinir Eynon 01437 563540
<u>LLANBOIDY:</u>	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
<u>LLANDYSILIO:</u>	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
<u>LLANGLYDWEN:</u>	Jill Lewis 01994 419495 jill.luest@gmail.com
<u>LLANGYNIN:</u>	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlemail.com
<u>MEIDRIM:</u>	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
<u>PENYBONT:</u>	Una Williams 01994 484372
<u>PWLLTRAP:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>RHYDYCEISIAID:</u>	Doreen Adams 01994 240581
<u>RHYDWILYM:</u>	Eilir Davies 01994 419649 eilirtyrhos@btinternet.com
<u>SAN CLER:</u>	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
<u>TRELECH:</u>	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

LLEWYRCH I'M LLWYBR**Carden Nadolig i Mars!**

Wn ni ddim os yw'r enw Oliver Giddings yn golygu rhywbeth i chi? Bachgen bach pum mlwydd a gyrhaeddodd benawdau'r newyddion rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd Oliver bach yn breuddwydio am fod yn astronaut! Mae'n siwr gen i bod llawer o blant bach eraill ei oed ef wedi breuddwydio am wneud rhywbeth tebyg! Yn bersonol, gwell gen i gadw fy nhraed yn saff ar y ddaear! Er, mae un neu ddau wedi gofyn i mi cyn hyn ar ba blaned rwy'n byw!

Ond nôl at Oliver Giddings! Fe ddanfonodd y bachgen bach hwn lythyr i'r Post Brenhinol yn gofyn iddynt faint fyddai'n costio i ddanfon carden Nadolig i Mars! Ac fe fuodd penaethiaid y Post Brenhinol wrthi'n ddyfal yn ceisio ateb ei gais, a bu rhaid iddynt alw am gymorth NASA, yng Nghanol-fan Oford Kennedy yn Florida, Unol Daleithiau'r America!

Derbyniodd Oliver lythyr swyddogol yn ôl o'r Post Brenhinol ac ateb i'w ymholiad - y byddai danfon cerdyn Nadolig i blaned Mars, yn dibynnu ar bwysau'r amlen, tâl am y tanwydd roced a'r pellter, sef 567 miliwn o filltiroedd rhwng Mars a'r ddaear fyddai £11,602.25! Sef 18,416 o stampiau dosbarth cyntaf neu 21,466 o stampiau ail ddosbarth!

Stampiau

Wel, Mars neu beidio, mae un stamp dosbarth cyntaf neu un stamp ail ddosbarth yn ddigon drud fel ag y mae! Mae danfon cardiau Nadolig wedi mynd yn beth costus iawn, ond wedi dweud hynny, mae'n braf derbyn cyfarchiad oddi wrth rhywun nad ydych yn eu gweld yn aml, ac mae'r cardiau a dderbyniwn yn sicr yn harddi ein cartrefi ar yr adeg arbennig hon o'r flwyddyn.

Ond rhaid canmol y Post Brenhinol eleni am gyhoeddi stampiau Nadolig ac arnynt luniau sy'n adrodd Stori'r Geni. Gwych iawn. Mae'r Post Brenhinol yn cyhoeddi stampiau crefyddol a seciwlar bob yn ail flwyddyn,

Mae'r delweddau ar y stampiau eleni yn rhai ardderchog ac yn ein tywys gam wrth gam, drwy stori'r geni.

Mynd gam wrth gam

A dyna'r union sydd angen i ni wneud rhwng nawr a dydd Nadolig, dilyn y stori yn feddyliol ac ysbrydol a mynd gam wrth gam i Fethlehem yng nghwmni cymeriadau'r Nadolig cyntaf.

Ymdeimlo ac arswyd Mair, bod Duw wedi dewis rhywun mor ddistadl a hi i eni Gwaredwr y byd. Rhannu gofid Joseff bod Mair yn disgwyl plentyn, a diolch bod Duw, drwy'r angel wedi cysuro Joseff. Clywed o'r newydd gan yr angylion yn cyhoeddi'r newyddion gwych bod Gwaredwr wedi dod i'n byd. Rhyfeddu fel y bugeiliaid a mynd ar unwaith i weld Iesu. A phlygu fel y doethion ac addoli y baban bach a cyflwyno ein rhoddion iddo.

Y rhodd fwyaf y medrwn gyflwyno i Iesu y Nadolig hwn yw ni ein hunan.

'Beth a rhoddaf iddo thrwm a gwael fy myd,
Pe bawn fugail, rhoddwch orau'r praid i gyd
Pe bawn un o'r doethion, gwnaf fy rhan ddi-goll'
Ond pa beth a rhoddaf - fy mywyd oll.'

Diolch i'r Post Brenhinol am osod stori'r Geni ar eu stampiau eleni ond diolch yn fwy i Dduw, am anfon ei fab i'n byd.

Parchg Beti-Wyn James

CYSTADLEUAETH *gan John Arfon*

Unwaith eto, hyfryd yw eich cyfarch ar drothwy Nadolig arall, gan obeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach.

Yn anffortunus trwy fy mai i, collais y cyfan a oeddwn wedi ei baratoi i roi o'ch blaen dros yr Ŵyl, a rhaid felly ceisio cofio beth oeddwn wedi eu drefni ichwi.

Siomedig iawn oedd eich ymateb i gystadlaethau mis Medi. Dim ond wyth ymgais a ddaeth i law ac os nad oes mwy yn cystadlu yn y dyfodol, ni fydd llawer o bwynt imi roi oriau o waith i greu a pharatoi y posau ichwi.

Dyma atebion y ddau bôs a osodwyd ym Medi.

Pôs (a)

Ar Draws

1.Crombil, 6. Hebraeg, 9. Winc, 11.Groeg, 12. Oel, 13.Aur, 14.Wal, 17. Llenwi, 19. Ofn, 20. Amserau, 21. Athrylith.

I Lawr

1. Cofgolofn, 2. Oedolyn, 3. Bragu, 4. Egni, 5. Encil, 6. Hwre, 7. Awyren, 8. Deallus, 10. Iawndal, 15.Awr, 16. Afal, 17. Lloer, 18. Iait.

Pôs (b)

Ar Draws.

1. Aceri, 5. Ebol, 8. Ty, 9. Eofn, 10. Ew, 11. Ofn
13. Winc, 15. Mainc, 17. Gras, 19. Allan, 21. Unawd, 24. Ffrae, 27. Cae, 28. Toddi, 31. Er, 32. Dodo,
33 Oerni.

I Lawr.

1. Atom, 2. Cyfaill, 3. Re, 4. Ionc, 5. Enw, 6. Oen, 7. Lwcus, 12. Ni, 14. Iar, 16. Non, 17. Gwn, 18. Adwaen, 19. Arffed, 20. Adda, 21. Urddo, 22. Ac, 23. Deri,
25. Rio, 26. Eto, 30. Ie.

Y cyntaf allan o'r het y tro hyn ac sy'n ennill y wobr o £5 oedd Dorothy Williams, 5 Rhoswyn, Efailwen, gyda'r ail wobr o lyfr yn mynd i John Lewis, Talarwen, Meidrim. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir :- Peter Crowdie, San Cler; Phyllis Hughes, Pwlltrap; Eilyr Thomas, Llandysilio; Susan Phillips, Llangynin; Jane Evans a Tegwen James, Blaenwaun.

Dyma atebion y cwros w a chwila'r mis Medi

O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X
X	X	O	O	X	O
O	O	X	X	O	X
O	X	X	O	X	O
X	O	O	X	O	X

6	3	8	1	2	4	5	7	9
9	4	7	6	3	5	8	2	1
2	1	5	7	9	8	6	3	4
4	8	2	9	5	1	7	6	3
3	6	9	4	8	7	1	5	2
5	7	1	3	6	2	4	9	8
1	9	4	5	7	3	2	8	6
8	5	3	2	1	6	9	4	7
7	2	6	8	4	9	3	1	5

Dyma ddau arall i'ch diddori y mis hwn


		O		X	
O					O
X			X		
	O				
			X		X
O	X				

			6	2				1
3	8	2		5				
5			3					
					4	9		
		8		9				2
		7	1				8	
		9			3	8		
	6					7	1	
	7			1	9	3	4	

Yn ôl yr arfer mae tair cystadleuaeth ar gael y mis hwn a dwy ran i bob un. Cofiwch fod yn rhaid ichwi ddatrys y ddau ran os am ennill gwobr yn un o'r cystadlaethau. Dyma'r posau:-

A(1)

Atebwch y cliwiau a roddir a rhoddwch yr atebion yn eu llyfdd priodol yn y grid. Yna cymerwch y llythrennau sydd yn y blychau llwyd ac ail-drefnwch hwy a'u rhoi i mewn yn y blychau gwag sydd yn rhif 6 ar draws. Cymerir ch, dd, ff ac yn y blaen fel un llythyren. Os gwnewch hyn yn gywir fe gewch yr ateb sydd ei eisiau.

**Ar Draws**


1. Treth a delir i'r Eglwys
3. Budreddi
4. Diogel
6. ? ? ?
7. Tegan i ferch
9. Chwarren i buro'r gwaed
10. Anifail fferm

I Lawr

1. Ein Tad
2. Rhan o'r flwyddyn
3. Perthynas agos
5. Llwyddo gan ddod ymlaen
8. Hap neu ffawd
9. Medrus yn y tablau.

A(2)

Llenwch y grid gyda'r atebion i'r cwestiynau a roddir. Yna, os gwnewch hyn yn gywir cewch ateb i un o lefydd yng Nghymru, trwy ddarllen y blychau llwyd i lawr. Cymerir ch, dd, ff, ac ng ac yn y blaen fel un llythyren.




- 1 Castiau
- 2 Ewin aderyn
- 3 Brysio
- 4 Hylltra
- 5 Lle i addoli
- 6 Satanaidd
- 7 Tymhestlog
- 8 Rhan o dy

B(1)

Rhowch y parau o'r llythrennau yn y cylchoedd fel bo pob un sy'n mynd trwy y cylch canol yn gwneud gair chwe-llythyren.


Yr allwedd i gwblhau y pŵs hwn yn hollol gywir, yw rhoi y pâr o lythrennau yn y cylch canol sydd yn gyffredin i'r cyfan o'r 6 gair chwe-llythyren a fedrwyd eu creu.



AD
AN
AU
CA
DO
EI
GW
HE
MU
OL
ON
RI
TI

B(2)

Tybed a fedrwyd gwblhau y croesair canlynol. Fe welwch fod pob cliw yn rhoi'r ateb sydd ei eisiau ond gyda rhai llafariad a,e,i,o,u,w,y ar goll e.e. yn y cliw TL(4), gallech gael Talu, Ytal, Tyle, Tila ac yn y blaen ond nid Alto. Rhaid i'r cytseiniau fod yn y drefn gywir. Mae'n rhaid i chwi weithio allan yr atebion cywir er mwyn cwblhau y croesair. Gyda llaw nid oes unrhyw ateb yn cynnwys y llythrennau, ch, dd, ff ac yn y blaen.

**Dyma'r cliwiau****Ar Draws**

1. GRNT (8)
9. SGTS (5)
11. DRS (4)
14. SGD (6)
18. TRDNR (8)
23. MSTRD (7)
25. FN (4)
5. DNT (4)
10. PRBL (7)
12. CNGN (8)
15. CMPS (6)
20. HNT (4)
24. LN (5)
26. BNCLST (8)

I Lawr

1. GSD (5)
3. ST (4)
6. SBR (5)
8. PRFT (7)
14. STM (7)
17. MDR (5)
21. TRST (5)
2. NNG (7)
4. TSPN (6)
7. TRNS (7)
13. CFLF (7)
16. PRDR (7)
19. MSN (5)
22. CLC (4)

C(1)

Ceisiwch ddatrys y Chwilrif Mawr yma. Mae'n rhaid i bob llinell, colofn a'r blwch 4x3 gynnwys yr holl rifau o 1 i 12.

			4	7			12	11			
2					5	10					6
11		10	8		4	1		3	9		7
		5		8			3		7		
7		1			12	11			5		8
	3				9	5				6	
	10		5		2	12		6		11	
4	9	12							3	1	5
3	8	2	6					4	12	7	10
		8	10	5			1	9	11		
		6							4		
					3	4					

C(2)

Chwil lythrennau yw'r dasg hon - mae'n union yr un fath a chwilair heblaw fod llythrennau yn lle rhifau ynddi. Os gwnewch ei gyflawni yn gywir, dylech gael enw lle yng Nghymru yn y grid terfynol. Nid yn unig rwyf eisiau'r ateb ond hefyd y grid terfynol

		C	A		O		W	
Y			W		N			E
L				C				A
W	Y						L	O
			E		Y			
E	O						C	B
	E	B	O		C			
A			B		E			C
O				A	W			

Anfonwch eich cynigion ynghyd â'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX erbyn Chwefror y 1af 2022 os gwelwch yn dda. Rydych yn gweld felly fod digon o amser gennych dros y Nadolig i wneud y posau hyn. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 eleni os am y siawns o ennill un o'r gwobrau a gynigir. Bydd £5 i'r cyntaf a llyfr i'r ail yng nghystadlaethau A (i a ii) ac hefyd i B (i a ii). Gwobrau o lyfrau Chwilrifau sydd i'w hennill ym mhrosau C.

Mae llawer o bobl yn cwyno mai yr un rhai sy'n ennill yn aml ac mai yr un enwau sy'n cystadlu bron pob tro. Wel, does ond un ffordd i newid hyn a hynny yw cael llawer mwy ohonoch i ddefnyddio eich ymmydd-dd a chystadlu yn rheolaidd.

Diweddaf gyda diolch i bob un o'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac hefyd am eich geiriau caredig am y gwahanol gystadlaethau.

Hefyd, fe hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda ichwi gyd, a chan obeithio y cewch gwmni eich tylwyth a'ch anwyli-aid dros yr Ŵyl. Hyderwn y bydd pethau'n gwella y flwyddyn nesaf felly CADWCH YN SAFF.

NADOLIG

Gŵyl y cofio yw'r Nadolig,
Cofio Crist yn faban Mair,
Cofio'r Ceidwad yn y preseb
Ac yn cysgu yn y gwair.

Daeth angylion i'w foliannu,
Mab y dyn yn Frenin nef
A'r bugeiliaid a ddaeth yno
Gan ei ogoneddu Ef.

Boed i'r cofio eni eto
Yng nghalonau dynol-ryw
Y tangnefedd o adnabod
Baban Mair yn faban Duw.

D.J. Thomas



CORNEL Y DYSGWYR

Albie Abbot

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Oddi wrth Albie a'r Teulu.

Cofiwch deg mlynedd - 10 years / deg mlwydd oed - 10 years of age
(B = blwyddyn / blwydd; llenwch y bylchau gan ddilyn y cyfarwyddiadau.

1. Fe gafodd e'r swyddyn ôl. (3B)
2. Oedd y plentyn ynoed ym mis Mai? (10B)
3. Bu farw'r dynyn ôl. (1 B)
4. Fe fuon ni'n gweithio yno am(2B)
5. Pryd y bydd Tom ynoed ? (9B)
- 6.....yn ôl, agorwyd y pwll glo. (100B)
7. Arhosodd e yno am(5 B)
8. Parodd y gwaith am (10B)
9. Rwyf i wedi bod yn dysgu ers(12B)
10. Siaradais a hicyn iddi farw. (8B)
11. Gweithiodd Tom amyn y ffatri. (6B)
12. Dechreuais i'r ysgol pan oeddwn i'noed. (5B)
13. Arhoson nhw yn y goedwig am (20B)
14. Pryd roedd e'noed? (21B)
15. Dechreuodd y mudiadyn ol. (200B)
16. Fe fuon ni yno am(3B)
17. Mae'n nhw bron yn (7B)
- 18yn ol, roedd e'n fyfyrwr. (20B)
19. Dim ondyn ol priodion nhw. (1B)
20. Roedd John yn y coleg am (4B)
- 21 Rwy'n credu iddo farwyn ôl. (2B)
22. Siaradais i ag ef yn ôl. (4B)
23. Arhoson nhw yn Moscow am (6B)
24. Mae ei mab hi'noed erbyn hyn. (3B)

Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concriid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio

Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN CLUDIANT



Rlydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎ 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF. (WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



Cyfarfod Blynyddol Y Cardi Bach

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn rhithiol eto eleni a hynny ar brynhawn Sul, Hydref 24ain. Yn bresenol oedd Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Roy Llewellyn, Wyn a Meirwen Evans, Rhian White, Iola Wyn, Llinos Thomas, Mel Jenkins, Jane Evans, Meinir Eynon, Tegwen James, Beti-Wyn James, Delyth Roblin. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddiwrth Sian Jackson a Susan Phillips.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eurfyl Lewis, y Cadeirydd.

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant â Mel ar golli ei annwyl briod, June yn ystod y flwyddyn ac i bawb arall sydd wedi colli annwyliaid. Llongyfarchwyd pawb sydd wedi dathlu achlysur arbennig.

Cofnodion a Gohebiaeth

Cynigiwyd gan Mel ac eiliwyd gan Iola fod cofnodion cyfarfod 2020 yn gywir. Darllenwyd llythyr oddiwrth Mel sy'n mynegi ei ymddiswyddiad fel gohebydd lleol Hendygywyn a ffotograffydd cynorthwyol. Derbyniwyd y llythyr gyda thristwch a diolchwyd o galon i Mel am ei holl waith – yn ohebydd ers sefydlu'r papur a nifer o swyddi eraill ar hyd y blynyddoedd. Dymunodd Mel, hefyd, ddiolch i Rhoswen a Nansi am eu cymorth. Bydd angen gohebydd newydd ar Hendygywyn.

Adroddiad y Cadeirydd

Mynegodd Eurfyl ddiolchgarwch diffuant i bawb sydd wedi cynorthwyo i argraffu 7 rhifyn ers y cyfarfod diwethaf, hefyd am y defnydd o dudalen Facebook a gosod hen rifynnau a chadw'r wefan.

Diolchodd Iola Wyn i Eurfyl am ei holl waith yn golygu a dosbarthu'r Cardi Bach.

Adroddiad y Trysorydd

Bu cynnydd mewn gwerthiant yn ystod y flwyddyn, er y Cyfnod Clo a thorri nôl ar y nifer o rifynnau. Derbyniwyd y fantolen (cynnig:Meinir, eilio: Mel). Diolchodd Roy i Eurfyl am ddosbarthu'r papur yn ei le.

Adroddiad y Cysodwyr

Mae'r cysodwyr yn hapus gyda'r ffordd mae'r newyddion yn cyrraedd, yn brydlon, er fod llawer o amser yn mynd i lawr-lwytho'r e-byst cyn cysodi. Diolchwyd i Eurfyl am brawf-ddarllen y papur bob rhifyn ac i Alun o Gwasg Aeron am ei gymorth. Diolchwyd i Wyn a Meirwen am y gwaith mawr mae'n nhw'n ei gyflawni bob mis.

Adroddiad y Clwb 200

Mae 652 o aelodau mor belled yn 2021 yn cynnwys 40 o aelodau newydd. Wedi llawer o waith, daeth popeth i drefn gyda HSBC. Diolchodd Rhian i Wyn a Meirwen am eu cymorth bob amser.

Ethol Swyddogion

Etholwyd swyddogion fel a ganlyn:

Cadeirydd – Eurfyl Lewis

Is-gadeirydd – Iola Wyn

Ysgrifennydd – Beti-Wyn James

Is-ysgrifennydd – Iola i gamu mewn os bydd angen.

Trysorydd – Roy Llewellyn

Is-drysorydd – Rhian White

Trefniadau tynnu gwobrau'r Clwb 200

Penderfynwyd ceisio cyfarfod wyneb i wyneb drwy drefnu cwis yn Neuadd Llanboidy ar Nos Wener, Chwefror 18fed am 7.30y.h. Bydd Iola Wyn yn trefnu'r cwis a chynhelir raffl. Trafodir lluniaeth yn nes at y dyddiad. Os na fedrir cyfarfod wyneb i wyneb, fe gynhelir y digwyddiad yn rhithiol ar yr un noson. Hysbysebir y noson yn rhifyn Rhagfyr o'r Cardi Bach.

Unrhyw fater arall

Penderfynwyd hysbysebu ar Facebook gyda hamper o gynnyrch Cymreig yn wobwr.

Llyfrau Llafar Cymru – Derbyniwyd neges gan Philip James yn gofyn a fyddai modd ail-gychwyn darllen Y Cardi Bach i'r Papur Llafar. Dydy Sally ac Eilir ddim yn medru gwneud bellach ac mae Cynwyl a Rhian wedi bod yn gwneud y gwaith yn eu lle gyda Susan Davies, Llanboidy. Cynigiodd Meirwen, Meinir, Llinos a Iona helpu a phenderfynwyd y byddai Rhian yn siarad â Susan ac o bosib yn trefnu rota.



PWDIN NADOLIG (defnyddio menyn yn lle 'suet')

CYNHWYSION:-

1 pwys o gyrens, 1 pwys o sultanas, 1 pwys o raisins
1 1 pwys o fenyn • 1 lb o siwgwr brown tywyll • 5 wy
4 owns o 'Golden Syrup' • Sudd a chroen lemwn wedi ei gratio
6 owns o fflwr (S.R) • 1 pwys o friwsion bara
1 llwy de o sbeis cymysg • 1 llwy de o nutmeg
Llund gwydr gwin o rum neu brandy ac ychydig o laeth.

DULL

Curo'r menyn a'r siwgwr
Ychwanegu'r wyau a chymysgu gyda'r syrup
Ychwanegu sudd a chroen y lemwn, ffrwythau sych, fflwr, sbeisis, briwsion bara
Cymysgwch y cyfan yn dda
Rhoi'r rum neu'r brandy i mewn gyda ¾ llwy fwrdd o laeth.
Gorchuddiwch y bowlen a gadael y gymysgedd i aros dros nos.

Mae angen 3 basin wedi ei baratoi; rhwch ychydig o bapur menyn ar y gwaed
Llenwch hwy a'u coginio (berwi) am 6 awr.
(Ail-ferwch y pwdin am ddwy awr cyn ei fwyta)

Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

Codwyd swm anrhydeddus iawn o £4125 o ganlyniad i'r daith gerdded noddedig flynyddol gynhaliwyd noli ym mis Medi. Diolch o galon i bawb fu'n cerdded ar y daith ac yn casglu nawdd, diolch i'r stiwardiaid ac hefyd diolch i bawb fu'n noddi'r cerddwyr. Gwnaeth Buddug Phillips ymdrech arbennig drwy godi swm o £320 ei hunan, chwarae teg iddi.

Gan nad oedd modd cynnal Oedfa o Fawl eleni eto, bu swyddogion y Gymdeithas yn cyflwyno swm o £1500 yr un i Banc Bwyd Sir Benfro, Meddygfa Rhiannon Arberth ac Ymchwil Cancr Cymru.



Eurfyl Lewis, Kevin Bowen a Rosemarie Davies, swyddogion y Gymdeithas, yn cyflwyno sic o £1500 i Dr Claire Lewis, Meddygfa Rhiannon Arberth



Cyflwyno sic o £1500 i Ann Watling, Banc Bwyd Shir Benfro



Cyflwyno sic o £1500 i Helen Davies, Ymchwil Cancr Cymru

Cyfrania

Bethel, Llanddewi	£100
Bethel, Mynachlogddu	£210
Blaenconin	£200
Brynmynach	£120
Calfaria, Login	£350
Cefnypant	£110
Cwm Miles	£150
Ffynnon, Llanddewi	£100
Glandwr	£75
Hebron	£100
Henllan Amgoed	£300
Llwynyrhwrdd	£270
Moriah	£270
Nasareth, Hendygywyn	£150
Nebo	£395
Pisgah	£150
Ramoth, Cwmllyn	£570
Rhydyceisiaid	£60
Rhydwllym	£150
Tabernacl, Hendygywyn	£200
Trinity, Llanboidy	£95
Cyfanswm	£4125

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ

Rhif ffôn: 01994 231338

e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Dyma 2021 yn dod at ei therfyn a chofiwch yn annwyl am y rheini a gollwyd, boed yn aelodau'r Clwb 200 neu'n ffrindiau i'r Cardi Bach.

Diolch am eich cefnogaeth i'r clwb yn ystod y flwyddyn ac hyderaf y gwnewch ymuno eto'r flwyddyn nesaf, i gefnogi'n papur bro.

Dyma restr o'n haelodau newydd:-

Elgar a Rose Saer, 10 Heol y Parc, Hendygywyn.

Tudur Lewis, Bro Beca, Efailwen.

Nia Haf Lewis, Bro Beca, Efailwen.

Gwyndaf Lewis, Bro Beca, Efailwen.

Rhodri Lewis, Bro Beca, Efailwen.

Ffion Mair, Bro Beca, Efailwen.

Mair Eynon, Awel Deg, Glandy Cross.

Margaret Owens, Glas y Dorlan, Llanglydwen.

Carys Owens, Manor, San Clêr.

Llongyfarchiadau i enillwyr lwcus y ddau fis diwethaf.

Hydref

298 - Harri Dylan Bowen, San Clêr - £20

60 - Sarah Eynon, Siop Bapurau Hendygywyn - £10

Tachwedd/Rhagfyr

346 - Eilyr Thomas, Llandysilio - £20

505 - Teulu Llewellyn, Tŷ Uchaf, Llandysilio - £10

Gan ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Ddedwydd ac heddychlon i chi gyd.

Cadwch yn ddiogel,
Rhian

MERCHED Y WAWR

Cangen Gronw

Pleser oedd croesawu ein Llywydd Cenedlaethol Mrs Jill Lewis i Westy Nantffyn ar brynhawn dydd Iau, 21ain Hydref. Hyfryd oedd gweld nifer dda o'r aelodau yn bresennol. Braint Meinir oedd ei chroesawu a chafwyd araith gan Jill yn ei ffordd arbennig hi. Mae Jill yn gymeriad gwreiddiol, brwdfrydig, argyhoeddiedig ac ymroddgar ac yn llwyr haeddi'r swydd. Cafwyd amser pleserus yn ei chwmni a dymunwyd pob llwyddiant iddi. Diolchwyd i staff y gwesty am y tē prynhawn hyfryd.

Trefnwyd ein bod yn cynnal y cinio blynyddol yng Ngwesty Nantffyn ar Rhagfyr 2il am un o'r gloch. Edrychwn ymlaen yn fawr i gael cymdeithasu, rhywbeth i ni gyd wedi ei golli yn ddiweddar. Pob dymuniad da i rai o'n haelodau nad ydynt yn profi iechyd da ar hyn o bryd.



Dyma Cangen Gronw Merched y Wawr yn croesawu ein Llywydd Cenedlaethol Mrs Jill Lewis mewn tē prynhawn yng Ngwesty Nantffyn.

Cangen San Cler

Cyfarfu'r gangen yn Yr Hen Ysgol ar Nos Fawrth, Tachwedd 16eg.

Llywyddwyd gan Annalyn a chroesawodd pawb i'r cyfarfod – y cyfarfod cyntaf tu fewn ers cychwyn y Cyfnod Clo. Diolchodd i Iona am ei holl waith yn trosglwyddo'r wybodaeth am weithgareddau'r Mudiad dros y ddwy flynedd diwethaf.

Dymunwyd yn dda i Eileen a Sally, ill dwy wedi derbyn llaw-driniaeth yn ddiweddar. Cydymdeimlwyd â Delyth

ar farwolaeth ei mam. Llongyfarchwyd Heulwen ar enedigaeth wyres, Gweni Lois, a Joan ar ddod yn hen-fangu i fachgen bach ar ddiwrnod y cyfarfod. Darllenwyd llythyr oddi wrth Annalyn yn amlinellu ei swydd fel Swyddog Cymunedol Tŷ Croeso. Llongyfarchwyd hi ar y swydd ac am y casgliad arbennig roedd wedi trefnu yn y gymuned tuag at y Lloches Menywod.

Trefnwyd y byddai'r gangen yn ceisio addurno coeden gogyfer a Gŵyl Goed Nadolig yr Eglwys. Roedd Eileen wedi creu nifer o flodau gobaith hyfryd iawn sydd bellach wedi eu danfon i'r swyddfa yn Aberystwyth. Diolch iddi. Bu 2 dîm yn cystadlu yn y Cwis Hwyl sef Rhian White, Sally a Marian, a Iona, Heulwen a Beti-Wyn. Gwnaeth y ddau dîm yn dda drwy gael 99 allan o 100 o'r cwestiynau yn gywir.

Wedi lluniaeth blasus a ddarparwyd gan Sue o'r Hen Ysgol cafwyd hwyl yn "Dod i Adnabod" yr aelodau. Yn dilyn "Dod i Adnabod" a drefnwyd ar y we gyda'r Mudiad yn ystod y clo, fe wnaeth yr aelodau lenwi ffurflen ac yna cafwyd hwyl yn ceisio dyfalu pwy oedd yr aelod wrth i Annalyn, Iona a Beti-Wyn ddarllen rhai o'r atebion ar y ffurflenni.

Rhoddwyd gwobr raffl, sef trefniant o flodau Nadolig, gan Lilwen ac fe'i henillwyd gan Ann. Diolchodd Annalyn i Sue a Phillip Hughes o'r Hen Ysgol am y croeso a'r lluniaeth ac i bawb am gyfrannu tuag at y noson.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar ddydd Sadwrn, Ionawr 29ain am 10.30 y.b. yn yr Ardd Fotaneg.

Cangen Beca

Prynhawn Iau, Hydref 14eg aeth nifer fach o'r aelodau i'r Egin yng Nhaerfyrddin.

Ar ôl cael paned cawsom ein tywys o amgylch y ganolfan gan Lowri. Cawsom ein synnu gyda'r holl weithgareddau sydd yn mynd ymlaen yno.

Gwnaethom fwynhau ein ymweliad yn fawr. Diolchodd Angharad i Lowri am brynhawn diddorol dros ben.

Prynhawn Iau, Tachwedd 11eg gwnaethom gyfarfod yn y Caffi unwaith yn rhagor.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concridd
Paneli ac Estyll Concridd

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

FFERYLLFA EVANS
MEDICAL HALL • REBECCA HOUSE
San Clêr

01994 230444 01994 230456



eich canolfan gofal iechyd lleol
*Cyngor rhad ar gael gan
ein staff profiadol*


T. D. LADD
a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

Ar ôl delio gyda rhai materion y mudiad a'r gangen, croesawodd Eryl George, ein llywydd, Geraint James o Awen Teifi atom.

Gwnaeth Geraint ddweud ei hanes, gan ddechrau gyda'r amser bu yn siop D.J. yn Abergwaun. Symud wedyn i Aberteifi, ac agor siop Awen Teifi.

Erbyn hyn, yn ogystal â'r siop lyfrau sydd ar y stryd, mae ganddo ystafell lawr llawr sydd yn llawn tegannau o bob math ar gyfer pob plentyn.

Lan llofft mae ganddo ddwy ystafell arall. Yn rhain mae yn arddangos gwaith yr artistiaid lleol, sef Meirion Jones a'i wraig Joanne. Cerddwch i fyny y grisiau i'w gweld. Bydd croeso yno i bawb ar unrhyw bryd.

Diolchodd Eryl iddo am brynhawn diddorol dros ben. Ar ôl cael paned a chacen aeth pawb adre yn ddigon hapus eu byd.

Edrych ymlaen yn awr at y Cinio Nadolig yn y Caffi, prynhawn dydd Iau, Rhagfyr 9fed. Nadolig Llawen i bawb.

Cangen Hendygywyn

Ym mis Hydref penderfynodd MyW Hendygywyn fynd am dro i Lys y Fran. Yn anffodus, gwawriodd Hydref 19eg yn wlyb ac yn niwlog, ond gyda'u brwdfrydedd arferol, cychwynodd y rhan fwyâ o'r aelodau ar y daith gan gyrraedd tua 11 o'r gloch yn barod am ddisgled o goffi. Ond ble'r oedd Gwyneth, Cerrys, Jean a Margarette?

Wel, roedd popeth wedi mynd yn iawn ac roedden nhw o fewn dwy filltir a hanner i Lys y Fran pan welon nhw fod yr heol ar gau. Am ryw reswm neu gilydd sylwon nhw ddim ar yr arwyddion GWYRIAD a doedd dim syniad gyda nhw sut i fynd ymlaen. Ar ôl pasio'r un tafarn ddwy waith, sylweddolon nhw eu bod nhw ar goll. Ymlaen a nhw yn ffyddiog eto ar hyd ryw lôn gul a phorfa'n tyfu yn y canol a dim un tŷ i'w weld yn unman. Erbyn hyn roedd yr aelodau eraill yn dechrau poeni a phenderfynwyd eu ffonio.

"Ffindiwch eich ffordd i Clarbeston Road," oedd cyngor Angharad.

O'r diwedd cyrhaeddodd nhw heol heb borfa yn tyfu yn y canol – ro'n nhw ar yr heol fawr rhwng Aberteifi a Hwlfordd! Mewn sbel fe welon arwydd 'Clarbeston Road' ac ar ôl stopio i ofyn am gyfarwyddiadau mewn tŷ rhyw

ddyn bach caredig oedd a'i wraig yn gweithio yn y siop papurau yn Hendygywyn, fe gyrhaeddodd nhw Lys y Fran o'r diwedd awr a hanner yn hwyr!

Cawson nhw glap pan gyrhaeddodd nhw, anghofiwyd am y wâc ac fe gafodd pawb fasnied mawr o gawl a bara ffres yn y caffi. Roedd Yvonne wedi gwneud ymchwil i gyfansoddwr yr emyn dôn 'Blaenwern' a anwyd yn y cyffiniau ac fe ddarllenodd Angharad ei nodiadau i ni. Ceson ni funud o dawelwch i gofio am un o'n haelodau anwylaf, Sheila Bancroft. Mae ei cholled yn fawr i ni gyda.

Ym mis Tachwedd cyfarfu'r gangen am y tro cyntaf yn ein hen gartre, Canolfan Hywel Dda a braf oedd cael bod yn ôl yno. Un o ffrindiau Ann James oedd ein gwraig wâdd sef Wendy, Blodau Blodwen ac Ann fu'n llywyddu'r cyfarfod. Ar ôl iddi groesawu pawb a chyflwyno Wendy, rhoddodd y wraig wâdd dipyn o'i hanes yn y grefft o drefnu blodau i ni. Yna fe wnaeth ddau drefniant hydrefol hardd a Mair Mathias a Petra Davies oedd y ddwy lwcus a'u henillodd.

Braf oedd cael croesawu tair aelod newydd i'n plith – Ann Lewis, Rose Saer a Pat Price. Cytunodd pawb bod cyfarfod am 2.30 yn y prynhawn yn hwylus iawn a chawd clonc braf wrth fwynhau disied o de a gorffen y gacen penblwydd a dorrwyd ym mis Medi yn ein cinio.

Bydd ein parti Nadolig yng Nghanolfan Hywel Dda ar 14eg o Ragfyr am 2.30. Diweddwyd ein cyfarfod drwy ganu cân y Mudiad.

Watson Jones



Y ffrindiau^{yn} casglu celyn ag aeron cochion i wneud torch Nadolig.
gan Guy Manning

Preseli storage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com



Detholiad o anrhegion
Cymraeg a Saesneg
o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Pwll Trap

Dymunwn yn dda i Claire Thomas, Penuppton ar ei phriodas â Callum Paine ar Hydref 9fed.

Ffion Davies a Ieuan Evans, Parc Llwynceilyn ar eu priodas hwythau yn Eglwys Llanfihangel Abercywyn ar Hydref 30ain.

Llongyfarchiadau i Daniel O'Callaghan ar ei lwyddiant yng nghystadlaethau Eisteddfod yr Urdd 2021. Daeth yn gyntaf am gyfansoddi gosodiad dan 25 oed ac am gyfieithu 19-25 oed.

Penblwydd hapus i Maisie Howells a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar Dachwedd 6ed.

.... hefyd i Don James, Parc Llwynceilyn ar ddathlu ei benblwydd yn 70 oed ar y 27ain o Dachwedd.

Cydymdeimlwn â Cynwyl ac Eilir Davies, Ardwyn a'r teulu ar farwolaeth nai Cynwyl, sef Oswald Huw Davies, Llanboidy.

Trist oedd clywed am farwolaeth Henry Thomas, Bwlchydomen gynt, yn 63 oed. Roedd wedi symud i fyw i Fryste yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Llongyfarchiadau i Richard a Rhian Reese, Rhosnant, ar enedigaeth merch fach, Gweni Lois. Llongyfarchiadau, hefyd, i mamgu a tadcu, sef Clive a Heulwen Reese.

Penblwydd hapus, hefyd, i Clive ar ddathlu penblwydd arbennig ym mis Tachwedd.

Bethlehem Newydd

Penblwydd hapus hwyr i Dai Rees a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Hydref 8fed.

Ar Sul Hydref 17eg cafwyd oedfa fendithiol dan ofal y Parchedig Ken Thomas, y Mot.

Ar fore Sul, Hydref 24ain cynhaliwyd Oedfa Ddiolchgarwch dan ofal aelodau'r Ofalaeth. Cafwyd oedfa hyfryd iawn a diolch i bawb wnaeth gymryd rhan yn cynnwys Elin Haf ac Elin Fflur a fu'n canu sawl unawd ac i Hefina am ymuno gyda'i merch i ganu deuawd. Llywyddwyd gan Annalyn a chafwyd crynodeb o'i gwaith fel Swyddog Cymunedol. Diolch i David Rees a Hefina Jones am gyfeilio ac yn arbennig i Marian a Rhodri am lunio a threfnu'r oedfa arbennig.

Mr Lyndon Lloyd oedd a gofal yr oedfa ar Hydref 31ain a chafwyd gwasanaeth bendithiol wedi ei selio ar Salm 23.

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd Apêl Ddiolchgarwch ym Methlehem Newydd lle y casglwyd nwyddau ymolchi tuag at Loches Menywod Caerfyrddin. Bu drysau'r capel ar agor ar foreau Sadwrn ym mis Hydref a chafwyd ymateb anhygoel i'r Apêl gan aelodau'r Ofalaeth a hefyd y gymuned ehangach ym Mhwll Trap a phentrefi cyfagos. Diolch yn fawr i Annalyn am drefnu'r Apêl, y gwirfoddolwyr fu ym Methlehem Newydd ar fore Sadwrn ac yn enwedig i bawb a gyfrannodd nwyddau.



Yn y llun gwelir cynrychiolydd o'r Lloches Menywod yn derbyn y nwyddau a'r cyfraniadau ariannol.

Oedfaon Gofalaeth Bethlehem Newydd a Gibeon Rhagfyr

- 5ed Oedfa Gymun dan ofal y Gweinidog - Bethlehem Newydd 10.00
- 12fed Gwasanaeth Nadolig gan yr aelodau - Gibeon 10.30
- 19eg Gwasanaeth Nadolig gan yr aelodau - Bethlehem Newydd 10.00

Elim, Llanddowror

Bwriadwn symud y cerrig beddau sydd o flaen Capel Elim Llanddowror a'u gosod yn fwy agos at y fynwent. Ymholiadau: Y Parchedig Rhodri Glyn Thomas, Llandwyn, Llangynin, San Clêr SA33 4JY 01994 230121.

CJ Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James

J. K. Lewis a'i Fab

Glandy Cross

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen amoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul, 7y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard
San Clêr

Ffôn: (01994) 231390





Prosiect Tŷ Croeso Bethlehem Newydd

Yn dilyn cyfyngiadau'r Clo Mawr, sylweddolodd Bethlehem Newydd, Pwlltrap, San Clêr bod rhaid newid darpariaeth bresennol yr eglwys. Gwelwyd bod angen ymestyn allan i'r gymuned a'i gwahodd i fewn i gymdeithas y capel yn groesawgar. Penderfynwyd ehangu'r gwaith dyngarol a wnaed eisioes drwy gyn-nig cymorth i'r canghenus yn lleol.

Fe'm hapwyntiwyd i, Annalyn Davies yn Swyddog Cymunedol er mwyn cydlynu'r gwaith gan wneud cysylltiadau gyda'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect sydd wedi ei enwi yn Tŷ Croeso. Bu'r capel yn llwyddiannus i dderbyn nawdd o dan Rhaglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr er mwyn cyflogi swyddog am bum mlynedd. Yr wyf yn falch iawn i fod yn rhan o'r gwaith yma ar adeg mor gyffrous.

Cam cyntaf y prosiect fydd trawsnewid tu fewn yr adeilad gan osod technoleg fodern i fewn i gefnogi'r oedfaon a fel bod modd i ffrydio oedfaon i gartrefi pobl na fedrant fynychu'r capel. Ariennir y gwaith yma gan y capel. Pan geir y caniatâd priodol, bwriedir newid llawr isaf yr adeilad gan osod cadeiriau esmwyth yno; cynnwys cegin gyda'r bwriad o wahodd y gymuned i fewn i awyrgylch groesawgar a chysurus lle bydd modd cael paned a chlonc. Gobeithir y bydd mudiadau eraill yn gwneud defnydd o'r adeilad tra'n sicrhau mai ei prif bwrpas bydd dal i fod yn addoldy.

Credwn bod yna gyfle gwych yma i gryfhau'r weinidogaeth yn lleol tra'n gwneud cyfraniad pwysig i'r gymuned.

"Peidiwch â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn feddi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond i ni beidio â llaesu dwylo." Galatiaid 6 : 9

Annalyn Davies
Swyddog Cymunedol

Y Gymdeithas Bethlehem Newydd

Ni fu'n bosibl i drefnu cyfarfodydd arferol Y Gymdeithas am bron i ddwy flynedd. Teimlwyd bod angen dechrau dod at ein gilydd unwaith yn rhagor ac o ganlyniad trefnwyd y cyfarfod cyntaf yn ddiweddar yn Hen Ysgol y Bôrd, Sanelêr lle cawsom De Prynhawn blasus dros ben. Daeth 22 o bobl ynghyd a braf oedd cael cyfle i gymdeithasu gan nad oedd rhai wedi gweld eu gilydd o gwbl yn ystod y cyfnod yma.



Mwynhau Te Prynhawn

Oherwydd pryder am sefyllfa'r Covid yn lleol, penderfynwyd peidio trefnu rhaglen yn ôl ein harfer, gyda'r bwriad o ystyried y sefyllfa nes ymlaen yn y flwyddyn newydd. Gobeithir cynnal dathliad Gŵyl Ddewi gan godi arian tuag at elusen. Cytunwyd i ail-enwi'r Gymdeithas yn "Cymdeithas Tŷ Croeso" gan bod prosiect Tŷ Croeso Bethlehem Newydd wedi'i sefydlu erbyn hyn ac yn datblygu. Fe fydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yno unwaith bydd y gwaith o adnewyddu'r capel wedi'i gwblhau.

Diolchwyd i Eilir Davies am ei gwaith clodwiw fel Trysorydd y Gymdeithas am ddeunaw mlynedd. Diolchwyd hefyd i Hen Ysgol y Board am ddarparu lluniaeth hyfryd ac roedd pawb wedi mwynhau. Edrychwn ymlaen i drefnu rhaglen ddifyr arall yn y flwyddyn newydd.

GWYDRIADAU DWBL
G.N.E.
DOUBLE GLAZING
TAI GWYDR
LANDERI A
FFASGIAU UPVC
GWYDRIADAU EILAIDD
BLYNYDDOEDD
O BROFIAD
GWAITH O SAFON
UCHEL
Ffôn: 01994 240688 Mobile: 07774 788349

FFENESTRI DRYSAU

Gareth Edwards
Derbyn
Gerddi'r Ffynnon
Hendywyn ar Dâf

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

BANCYFELIN

Gibeon

Cynhaliwyd oedfa fendithiol dan ofal y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas, ar Hydref 10fed. Hilary oedd yn gwasanaethu wrth yr organ.

Cynhaliwyd Gwasanaethau Diolchgarwch ym Methlehem Newydd ar Hydref 17eg a 24ain. Diolch i'r aelodau a fu'n cymryd rhan yn yr oedfa gan yr aelodau ar y 24ain.

Bu'r Apêl casgliad nwyddau tuag at y lloches menywod yn llwyddiannus iawn. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i'r aelodau a fu ar rota ym Methlehem Newydd yn derbyn nwyddau ar foreau Sadwrn.

Oedfaon Gofalaeth Bethlehem Newydd a Gibeon

RHAGFYR

5ed Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog
Bethlehem Newydd 10.00

12fed Gwasanaeth Nadolig gan yr aelodau
Gibeon 10.30

19eg Gwasanaeth Nadolig gan yr aelodau
Bethlehem Newydd 10.00

Capel Cana



Yn yr oedfa ar ddydd Sul, 14eg Tachwedd, cyflwynwyd llestr blodau arbennig o waith crochenwaith Talog i Len a Rose John ar eu hymddeoliad fel gofawyr y capel am dros deugain o flynyddoedd ac fel arwydd o ddiolch am eu gwasanaeth ffyddlon i Cana. Dymuniadau gorau iddynt.

Dathlu'r Nadolig yn y gymuned

Bydd Capel Bancyfelin yn trefnu'r orymdaith Nadolig flynyddol drwy'r pentref eto eleni ar hynny ar nos Sul, 19eg Rhagfyr. Estynnir croeso i bawb ymuno. Byddwn yn cwrdd wrth fynedfa Wenallt am 6 yr hwyr yn brydlon ac yn gwneud ein ffordd drwy'r pentref gan oedi bob hyn a hyn i wrando ar ddarlenniadau ac i ganu carolau. Dewch a thorts gyda chi! Yn dilyn yr orymdaith, bydd oedfa dan olau kannwyll yng Nghapel Bancyfelin. Croeso i bawb. Nadolig llawen oddi wrth aelodau Capeli Cana a Bancyfelin.

BLAENWAUN

Moriah

Hyfryd oedd cael y cymun cyntaf ers y clo ar Sul, 14eg Tachwedd. Roedd yr oedfa yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Gareth Ioan. Diolch i'r rhai fu yn paratoli o fewn y cyfyngiadau presennol ac i'r gweinidog am ei arweiniad. Roedd yn Sul y Cofio a gyda COP26, unwyd y ddau fel themau i'r oedfa. Amlinellodd Gareth ein cyfrifoldebau fel Cristion i achub yr hinsawdd.

Edrychwn ymlaen at oedfa Adfent ar brynhawn Sul, Rhagfyr 5ed am 1.30 o dan arweiniad ein gweinidog.

Cynhelir oedfa gyntaf y flwyddyn newydd ar 9fed Ionawr am 10.30 y bore gyda Gareth Ioan yn gwasanaethu.

Blaenwaun

Dymuniadau gorau i Irfon Phillips, Sŵyn y Wawr, am wellad buan ar ôl cael llawdriniaeth yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn yn fawr â Cheryl James, Elwyn a'r teulu ar golli ei brawd Roy Davies.

Hefyd cydymdeimlwn â Rhydian Isaac, Rhyd y parc, a'r teulu a'r golli ei frawd Brian oedd yn byw yn Keele, Swydd Stafford.

Llongyfarchiadau i Wyn a Julie Griffiths Bryn Eglur, ar ddod yn famgu a thadcu. Wyr bach newydd i'w sbwylio. Llongyfarchiadau gwresog i Dr Rhodri Evans, Maes yr Hâf, ar gwblhau ei ddoethuriaeth. Bu'n astudio tŵf radicaliaeth gwleidyddol yng Nghymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif ym Mhrifysgol Aberystwyth. Pob lwc i'r dyfodol.

arwyddion
eaglesigns

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Llifrau Cerbydau...

01994 231 749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy

 Paentiwr ac
Addurnwr

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL
 Monraker 
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf

Ffôn: 07837 089648

San Cler

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Morwen James, Heol y Bont yn 86 oed ar Hydref 6ed. Bu Morwen am flynyddoedd yn brif gogydd hawddgar yn Ysgol Griffith Jones. Cydymdeimlwn â'i phriod, Vaughan a Liz, ei merch ynghyd â'r wyrion a'u teuluoedd.

Trist, hefyd clywed am farwolaeth Helen Michael yn ddiweddar.

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedig Gareth Ioan a Mr Lyndon Lloyd am eu gwasanaeth dros y Sulie dwetha, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer mis Rhagfyr :-
5ed - Parchedig Tom Evans - Cymun am 10.30 o'r gloch

19eg - Cwrdd Nadolig am 10.30 o'r gloch

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Hywel Llewellyn, Dan y Cware, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Da deall bod Jean Jones, Talar Wen wedi dod allan o'r ysbyty ac yn derbyn gofal yng nghartref Park House, Dinbych y Pysgod.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Shan ac Ian Richards ar ddod yn famgu a dadcu am yr ail dro. Ganwyd merch fach o'r enw Erin i'w merch Hannah - chwaer fach i Mali. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Huw a Gaynor Llewellyn, Caerdydd a Mary Llewellyn, Garth ar ddod yn dadcu a mamgu a hen famgu, am y tro cyntaf, yn ddiweddar. Ganwyd bachgen bach o'r enw Tomos i Lowri, merch Huw. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

Pobol y Cwm

Llongyfarchiadau i Endaf Davies, Rhydymerydd sy'n ymddangos ar Pobol y Cwm ar hyn o bryd - er gwaetha'r ffaith bod e'n chwarae rhacsyn o gymeriad!

Diolch. Dymuna Mary Llewellyn Garth, ddiolch o galon am y cardiau, blodau, galwadau ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed ar Hydref 8fed. Cafodd amser i gofio a chrewyd atgofion hyfryd.

Pedair Cenhedlaeth



Llongyfarchiadau i Mary Llewellyn, Garth, Login a ddaeth yn hen famgu ar y 5ed o Orffennaf eleni. Yn y llun mae Mary, Huw (tadcu), Lowri (mam) a Tomos bach Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Cylch Meithrin a Ti a Fi Ffynnonwen

Llwyddodd y Cylch Meithrin gael grant wrth y llywodraeth i ddatblygu yr ardal allanol. Defnyddiwyd rhan o'r arian tuag at arwyddion. Diolch i gwmni "Boomerang" am eu creu. Ychwanegiad lliwgar i'r ardal allanol.



Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymch

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

Plant yn gadael



Pob lwc i Freddie Phillips, Cadi Owen, Lilly Golding a Grace Smoothy sydd yn mynd i Ysgol Bro Brynach yn llawn amser ar ôl Nadolig.

Mae'r Cylch Meithrin yn cynnal Taith Sion Corn ar Sadwrn, 11eg Hydref am 10.30 y b.

Gweler rhagor o fanylion ar y poster. Dewch i gefnogi.

Taith Sion Corn
Ffynnonwen

Dydd Sadwrn Rhagfyr 11eg

Cylch Meithrin Ffynnonwen SA34 0TG
Taith yn dechrau am 10:30y.b.

Bwyd ar gael
Tynnu ennillydd hamper

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Ymestyn Orlau

Mae'r Cylch Meithrin yn estyn oriau agor ym mis Ionawr i gyd fynd a gofynion rhieni. Y drefn newydd fydd:-
Llun 8.15 -12.45 a Ti a Fi 1-2.yp

Mawrth 8.15 -3.30

Mercher 8.15 -3.30

Iau 8.15 -3.30

Gwener 8.15 -3.30

Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Cylch.

MEIDRIM

Priodas Aur



Penblwydd Priodas Aur hapus i Vivian a Dianne Rees ar Ragfyr 4ydd. Llongyfarchiadau ar 50 o flynyddoedd priodasol. Wrth y teulu i gyd.



GELLYWEN

Ainon

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau wrth yr aelodau i gyd i Brian a Celia Crowdie, a oedd yn dathlu cyrraedd y garreg filltir o chwedeg mlynedd o fywyd priodasol sef eu Priodas Ddiemwnt mis diwethaf. Fe'i priodwyd yn Ainon ar 21ain o Hydref 1961. Oherwydd cyfyngiadau, bu'r teulu agos yn unig yn gwledda yn y Glen, Hwlfordd a chafwyd noson arbennig.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau a ffrindiau'r achos yma yn Ainon a mawr obeithiwn daw tro ar fyd a chawn ail ddechrau cyfarfodydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Colin J. Harries
Cigydd o Safon 
Gwasanaeth arlwyio ar gael hefyd
London House, 
Hendygywn-ar-Dâf 01994 240705
Galwch i mewn am y dewis gorau

GERALD BLAIN
CYMDEITHIUN CYF
Tynnu gwynnau Cymdeithion
Rhannwedd

15 Stryd St Idan, Rhinodwynn,
S4 6BB, GABRYDDIN, SA34 0AN

01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

 
Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

CWMFELIN MYNACH

Ramoth

Oedfaon mis Rhagfyr:-

Rhagfyr

12fed : Oedfa Gymun yng ngofal y Parchg Huw George - 2 o'r gloch

19eg: Oedfa Nadolig gan yr aelodau - 10.30

Ionawr 9fed: Cymundeb - Y Parchg Huw George - 2yp

Cydymdeimlwn â Rhydian Isaac, Rhydyparc, Lon Owen, Llanymddyfri a'r perthnasau i gyd ar farwolaeth eu brawd hynaf, Brian. Er ei fod yn byw yn Keele, roedd wedi cadw ei aelodaeth yn Ramoth ar hyd y blynyddoedd. Cofiwn am ei weddw a'u deulu yn eu profedigaeth.

....hefyd cydymdeimlwn â Roy Reynolds a Llinos Thomas ar farwolaeth brawd ac ewythr sef Gwynfor, a oedd yn byw yn ardal Hebron; hefyd a'r perthnasau i gyd. Dymunwn well iechyd i Roy.

.....hefyd â Derek James, Blaendyffryn a Delyth Lewis, Trefyw ar farwolaeth wncwl, sef Roy Davies o Landysilio.

Penblwydd

Penblwydd hapus i Ivy Edwards a fydd yn 65 oed ar Ionawr 3ydd.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Cennydd Jones a Rhian Williams ar eu priodas ar ddydd Gwener, Hydref 29ain. Cynhaliwyd y wledd yng ngwesty'r Plough, Rhosmaen, Llandeilo. Maent wedi ymgartrefu ym Mlaenau, Rhydaman gyda'u merched Gwenno a Sara.

Bu farw Benji Davies, Llechclawdd ar ddiwedd mis Hydref. Roedd ef yn adnabyddus yn yr ardal ac yn aelod yn Trinity, Llanboidy lle cynhaliwyd yr angladd. Cydymdeimlwn â'r perthnasau i gyd.

Diolch

Dymuna Iori Saer, Blaenffynnon ddiolch am yr holl alwadau a chardiau ar achlysur ei benblwydd. Diolch hefyd am y rhoddion. Trosglwyddwyd dros £300 i Ambiwylans Awyr Cymru. Gwethfawrogwn yn fawr.



Iori Saer yn cyflwyno sic i gynrychiolwyr Ambiwylans Awyr Cymru

LLANDDEWI EFELFFRE

Capel Bethel



Llongyfarchiadau mawr i Glesni, merch Sioned a Gavin Twose a fedyddiwyd yn Bethel ganol Hydref. Pob dymuniad da i'r teulu wrth pawb yn Bethel.

WYN DAVIES a'i FRODYR

ADEILADWYR

Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf

Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES

Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA

07875 540469

W. J. KENNETH DAVIES

ei Feibion a'i Ferch

SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen

Ffôn: 01437 563319

EFAILWEN

Cydymdeimlwn â Mrs Beti Davies, Tegfan, Glandy Cross a'r teulu wedi iddynt golli brawd, ac ewythr Roy Davies yn sydyn ddiwedd mis Hydref.

Penblwydd hapus iawn i Mrs Petra Davies ar gyr-raedd 80 oed ddiwedd mis Hydref.

Llongyfarchiadau i John a Janet Wheeler, Dolau Beca ar ddathlu eu Priodas Aur ddechrau mis Tachwedd.

Pencampwr arddangos lloi

Llongyfarchiadau gwresog i Enfys Wheeler ar ei champwaith yn ddiweddar yn Sioe "Lloi Pob Brid Drwy Brydain" yn Peterborough.

Enillodd ei Dosbarth Arddangos ac hefyd hi yw Pencampwr Arddangos Ayrshire gyda'i llo Waiola, ac enillodd Waiola ei dosbarth hefyd. Roedd 300 o loi yn cystadlu o pob gwr o Brydain, felly roedd yn dipyn o gamp. Ardderchog yn wir Enfys.



Ysgol Sul Nebo

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch rhithiol gan y plant fore Sul ddechrau Tachwedd. Diolch yn fawr i'r plant a'r bobol ifanc am gymeryd rhan, cawsom fendith o wrando arnynt. Mae posib ei weld ar Facebook o dan Ysgol Sul Nebo, ond rhaid gofyn caniatad cyn cael eich croesawu i mewn, er diogelwch y plant.

Diolch. Dymuna John a Janet, Dolau Beca, Efailwen ddiolch o galon i'r teulu, perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, negeseuon, anrhegion a rhoddion ariannol a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfu'r aelodau ar nos Fercher, Hydref 27ain a hynny, yn ôl ein harfer, yng Nghaffi Beca, Efailwen.

Estynodd y Cadeirydd, Eifion Evans, groeso cynnes i wr gwadd y noson sef y canwr Trystan Llyr. Er fod Trystan yn gyfarwydd i ni gyd, manteisiwyd ar y cyfle i ddod i'w adnabod yn well, drwy gynnal sesiwn o holi ac ateb yn ei gwmni.

Roedd Eurfyl wedi paratoi nifer o gwestiynau, gan holi rhagor iddo, mewn ymateb i'w atebion byrlymus. Cawsom wybod sut ddechreuodd ei ddiddordeb mewn canu ac am y bobol fu'n ddylanwad mawr ar ei fywyd. Soniodd yn benodol am ddylanwad ei deulu, yn arbennig ei famgu, y diweddar Margaret Richards ac am y sylfaen cadarn cafodd yn Ysgol Sul Henllan Amgoed ac Ysgol Beca, Efailwen. Talodd deyrnged hefyd i Eilyr Thomas fu'n ei hyfforddi am gyfnod. Bu Trystan yn sôn am uchafbwyntie ei yrfa hyd yn hyn, gan gynnwys canu deuawd yng nghwmni Syr Bryn Terfel, o flaen cynulleidfa o dros 4000 o bobol. Cawsom wybod gan Trystan hefyd sut mae'n bwrw ati i ddysgu geiriau caneuon opera Eidaleg, Ffrangeg, Rwsieg ac ati - gyda chryn drafferth oedd ei ateb ffraeth!!

Bu hefyd yn sôn am yr holl dai opera mae ef eisioes wedi perfformio ynddynt, yn ogystal a'r llwyddiannau ddaeth i'w ran wrth gystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol. Dyma'n sicrhodd yr hyder iddo ddilyn gyrfa fel canwr proffesiynol.

Dwedodd Trystan hefyd bod y ddeunaw mis dwetha wedi dangos yn glir, pa mor fregus mae bywoliaeth fel canwr proffesiynol gallu bod.

Bu hefyd yn sôn am ambell dro trwstan, yn ogystal â'i hoffter o chwarae rygbi.

Diolchwyd i Trystan am noson wych, gan Eifion Evans, ac yna cawsom fasnied o gawl bendigedig gan Robert - diolch iddo am ei groeso arferol.



Trystan yng nghwmni Eifion Evans, Eurfyl Lewis a Ken Thomas

Teyrnged i John Gibbin



Ganed John Gibbin yn Login a bu'n ffermio ym Mhenrallt tan ei ymddeoliad yn 1998, pryd symudodd i Faesmeini, Efailwen. Mynychodd Ysgol Pengaer ac aeth ymlaen i Goleg Llanymddyfri.

Priododd John a Lon yn 1978 a derbyniodd deulu newydd i'r aelwyd; dechreuad o bartneriaeth cadarn a chlodwiw. Un o brif briodweddau John oedd y ffordd wnaeth drin a gofalu am ieuchyd a diddordebau ei deulu. Roedd wastad yn barod i helpu gyda chynghor neu mewn modd ymarferol. Dyn oedd yn credu yn gryf mewn traddodiadau oedd John. Roedd yn geidwad cadarn i'w wyrion Daniel, Mathew a Llŷr ac oherwydd hyn magwyd parch a pherthynas cariadus rhngdynt.

Cawsant groeso arbennig yng Nglandy Cross lle y datblygodd ei ddiddordeb yn tyfu blodau a llysiau.

Un o agweddau nodweddiadol John oedd ei hiwmor – roedd ganddo'r gallu i ddweud jôcs ac i godi ysbryd. Roedd ei allu i gwnsela ei deulu, ei ffrindiau a'i gymdigion yn un o'i brif ragoriaethau.

Roedd wastad amser gan John i wrando ar drigolion y gymuned, naill a'i ar eu pryderon a'u hanawsterau unigol, neu ar fwriad a dyhead rhyw grŵp i weld newid yn lleol o ran cyfleusterau neu'r amgylchedd.

Roedd John yn amlwg iawn mewn sawl agwedd ar waith cymunedol, a gweithiodd yn ddiflino dros bobl yr ardal wrth gynrychioli'r gymuned ar wahanol gynghorau a sefydliadau gwirfoddol yn ystod y 50 mlynedd diwethaf gan gynnwys y canlynol:-

	O	Tan
Cyngor Cymuned Llanboidy (Cadeirydd 4 gwaith)	1959	2017
Cyngor Dosbarth Caerfyrddin – Aelod Etholedig (Cadeirydd 1983-84)	1973	1996
Cyngor Sir Caerfyrddin – Aelod Etholedig	1996	2004
Cyngor Sir Dyfed – Aelod Etholedig	1985	1989
Cyngor Iechyd Cymunedol Caerfyrddin/Dinefwr	1980	1992
Pwyllgor Rheoli Cartref Coomb Cheshire	1980	1992
Grŵp Cymorth Llanboidy ar gyfer Cartref Coomb Cheshire	1971	
Pwyllgor Amlogfa Arberth (Cadeirydd ddwywaith)	1974	1996
Capel Cefnyrant - Trysorydd a Diacon	1972	
Pwyllgor Neuadd Llanboidy	1968	
Pwyllgor Mart Hendy-gwyn (Cadeirydd 1987-2001)	1978	
Pwyllgor Neuadd Llanglydwen (Ysgrifennydd)	1974	2005
Llywodraethwr Ysgol - Ysgol Llanboidy ac Ysgol Beca	1985	2004
Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Brynach	2003	2006

Fel y dywedodd y Parchedig Howell Mudd yn y derynged yn ei angladd "dyn ei filltir sgwâr oedd John".

Cafodd gwaith John yn y gymuned ei gydnabod yn y rhestr Anrhydeddau Brenhinol yn 2013 pan ddyfarnwyd yr MBE iddo.

Roedd John yn cefnogi nifer o weithgareddau ac elusennau codi arian lleol gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru; Neuadd y Farchnad, Llanboidy; Apêl Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru a Chronfa Ganser Dr Sharkawi. Bu hefyd yn aelod ffyddlon o Gôr Hendy-gwyn am dros 30 o flynyddoedd. Roedd ganddo llawer o angerdd tuag at gerddoriaeth – canu a mynychu Cymanfaeodd Canu.

Dymuniad y teulu oedd bod pobl yn rhoi cyfraniad ariannol yn hytrach na blodau, a chodwyd dros £1000 tuag at wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

Dymuna Lon a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrydd a ddangoswyd iddynt yn eu colled.

DAVID HARRIES & Co

CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD

Westgate, West Street
Hendygywyn ar Daf

Ffôn: 01994 241100

Batteries, Belts, Bearings, Compressors,
Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf

"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"

PENRHEOL,
HEN-DY-GWYN,
SA34 0NH

01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

Allen and Partners
Milfeddygon

ALLEN & PARTNERS
Veterinary Services Ltd

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'n Cwsmeriaid Oll!

Hendygywyn: 01994 240 318

LLANGLYDWEN

Penblwydd

Penblwydd hapus i Sue Phillips, Tâf a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 ar Ragfyr 26ain. Pob dymuniad da i ti Sue, gobeithio y cei di benblwydd i'w gofio.

..... hefyd i Elen Lewis, gynt o Lluet yn 30 oed ddiwedd y mis. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ennill gradd mewn Nyrsio Cymunedol. Bydd y seremoni graddio yng nghanol mis Rhagfyr.

Diolch

Dymuna Karina a Nick Carter ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau caredig pan wnaethant gymeryd rhan yn Her y Tri Copa er cof am Wyn Owens. Codwyd y swm anhygoel o £1,479.00 i Ymchwil Cancr Cymru. Bu'n her eithriadol o anodd gan fod y tywydd yn erchyll ar y dydd, gyda glaw a gwynt cryf ofnadwy.

Llwyddodd y ddau beth bynnag i gyflawni'r her a dringo'r tri copa mewn wyth awr a 40,000 o gamau. Fel dywedodd Karina roedd yn her anodd, yn gorfforol ac emosiynol a chafodd y ddau 'socad' go iawn!



Nick a Karina ar gopa Pen y Fan



Criw a wnaeth yr her

Dymuna Mags a'r teulu ddiolch hefyd i bawb a gyfranodd i Ymchwil Cancr Cymru er cof am Wyn. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £1,271.90.

Mae'r swm terfynol felly a godwyd er cof am Wyn yn £2,750.90. Diolch felly i bawb a gyfrannodd er cof amdano ac i'r elusen arbennig hon.

Llongyfarchiadau enfawr i Karina a Nick ar gyflawni'r gamp ac am eich dyfalbarhad o dan amodau mor anodd ar y diwrnod.

RHYDYCEISIAID

Llongyfarchiadau i Dr Rhodri Evans, Maesyrhaf sydd wedi cwblhau ei Ddoethuriaeth yn llwyddiannus ym Mhrifysgol Aberystwyth. Da iawn Rhodri.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i un o'n hymwelwyr ffyddlon sef Mr Neville Griffiths, Aberdaugleddau sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Miss Gwennie Rees, Cheerio Villa a theuluoedd Plasydderwen yn eu profedigaeth o golli perthynas sef Benji Davies, Llechlaudd.

Penblwydd hapus i'r canlynol:

Miss Gwennie Rees, Cheerio Villa oedd yn 88 oed ar Dachwedd 29ain; Mr Ronnie Morgan sydd yn 87 oed ar Ragfyr 23ain a Mrs Mair Morgan sydd yn 83 oed ar Ragfyr 18fed.

Danfônwn ein dymuniadau gorau i'r rhai sydd yn anhwylyd yn eu cartrefi.

Dymuniadau gorau i Doreen Adams ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Gol.

SPAR

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

CLOTH HALL LLANBOIDY

Ffôn: 01994 448364 / 448221

Adelladwyr DORIAN PHILLIPS

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywyn, Sir Gar, SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 : Rhif Symudol 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad
Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm
A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

LLANGYNIN

Pen-blwyddi

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd yn dathlu pen blwyddi yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr: Glyndwr Davies, Llys Meini a'r Garreg Lwyd, Sanclêr, sydd yn dathlu ei ben blwydd yn 93 oed ar Dachwedd 1af, Jim Martin, Brychan, a fydd yn 85 oed ar Dachwedd 27ain, Gwen-nie Rees, Cheerio Stores, yn 88 oed ar Dachwedd 29ain a Mary Davies, Angorfa, yn 91 oed ar Ragfyr 6ed. Pen blwydd hapus i'r pedwar ohonynt!

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Roy Reynolds, Tymore, a Llinos a Geraint, Carreg Lwyd, a'r teulu i gyd ar farwolaeth brawd Roy yn ddiweddar, sef Gareth Reynolds o Hebron. Dymuniadau gorau am wellhad buan hefyd i Roy, sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod y misoedd diwethaf. Cydymdeimlwn hefyd â Gwennie Rees, Cheerio Stores, ar farwolaeth ei chefnider, sef Benji Davies o Gwmfelin Mynach.

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Christine Roxborough, Coedllys Uchaf, a hithau ddim ond yn 58 oed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i gŵr Stewart a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Don Phillips, Gorwelion, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Treforys yn ddiweddar. Da clywed ei fod adre bellach yn atgyfnerthu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Glenmarie Lewis, Talar Las, ar enedigaeth ei gorwyres gyntaf, Erin Rose Thomas, merch i Bleddyn a Josie Thomas, Hwlfordd. Mae Bleddyn yn fab i Helen (merch Glenmarie) a Nick Thomas o Grymych. Croeso mawr i'r fechan a llongyfarchiadau mawr i'r teulu i gyd.

Croeso

Pleser yw croesawu Les a Maria Murphy o'r Fenni sydd wedi dod i fyw yn y pentref ac wedi ymgartrefu yn Ucheldir, a dymunwn bob hapusrwydd hefyd i Gruff Howells a Lois Davies sydd bellach wedi symud o Ucheldir i'r cartref newydd ym Mlaenffos.

Clwb 60+

Bydd cinio Nadolig y Clwb 60+ yn Nhŷ Bwyta'r Savoy, Sanclêr, ar Ddydd Iau, y 9fed o Ragfyr.

HENDYGWYN

Tabernacl

Mae blwyddyn arall bron a mynd heibio ac mae amser prysur o'n blaen gydag oedfaon y Nadolig. Dyma rhai o uchafbwyntiau mis Rhagfyr yn y Tabernacl a chroeso cynnes i bawb:

Rhagfyr:

2il: Oedfa Garolau Hendy-gwyn am 10 y bore

19eg: Oedfa gyda'r plant am 10 y bore

24ain: Oedfa Wylnos trwy 'zoom' am 7 yr hwyr.

Fe wnaeth Cymdeithas y Tabernacl gwrdd am y tro cyntaf ers y pandemig pan gafwyd cinio arbennig ym Phlas Hyfryd a chyfarfod i ddilyn.



Cinio y Gymdeithas ym Phlas Hyfryd

Ar nodyn trist, rydym wedi colli dau aelod yn ddiweddar. Yn ystod mis Hydref collwyd Mrs Sheila Bancroft ac yna ddechrau Tachwedd collwyd Mr Hywel Phillips. Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda'r ddau deulu yn eu galar.



Ar nodyn hapusach llongyfarchiadau i Bleddyn a Josie Thomas ar enedigaeth Erin Rose, wyres i Helen a Nick Thomas a Richard a Dawn Lewis. Pob dymuniad da wrth bawb yn y Tabernacl.

Erin Rose

TAF AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7 -12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf
Robert W. R. Morgan

ECA CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol: 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN

01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk

UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

Ar ddiwedd blwyddyn, diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i fywyd y Tabernacl yn ystod y flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un.

Ysbyty

Blin oedd gennym glywed fod Mrs Morfydd Price, Carisma, Gerddi'r Ffynnon yn Ysbyty Glangwili. Dy-munwn wellhad buan iddi gan obeithio y bydd adref yn fuan.

Teyrnged i Sheila Bancroft



Trist iawn yw nodi marwolaeth Sheila Bancroft a hunodd yn dawel ar 14 Hydref yn 81 oed. Cafodd fywyd llawn ac hapus. Bu'n briod â George am 57 o flynyddoedd ac roedd yn fam gariadus i Sian Elin, Lowri a Heledd, yn fam-yng-nghyfraith barchus i Vaughan a David, yn famgu addfwyn i Ceri, Enfys, Ffion, Bethan,

Iwan, Liwsi a Dafydd ac yn hen-famgu annwyl i Lewis.

Magwyd Sheila yn Gorslas ac fe ddangosodd ddawn gerddorol yn ifanc iawn, gyda'r piano yn brif offeryn iddi. Bu cerddoriaeth yn bwysig trwy gydol ei bywyd. Yn ei hieuenctid roedd yn eisteddfodwr brwd, gan ennill llawn cwpwrdd o gwpannau arian mewn eisteddfodau, a phan yn 13 oed cafodd drydydd ar yr unawd biano yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaernarfon.

Daeth y teulu i'r Hendy Gwyn yn 1971, pan benodwyd George yn brifathro ar yr Ysgol Ramadeg, ac yma y buont hyd heddiw. Bu Sheila'n aelod brwd o nifer o gymdeithasau lleol dros y blynyddoedd, yn enwedig Merched y Wawr, a bu hefyd yn organyddes ffyddlon i'r Tabernacl, Hendy Gwyn.

Athrawes gynradd oedd Sheila wrth ei gwaith a mawr yw'r diolch iddi am lwyddiant yr Adran Gymraeg yn Ysgol Gynradd Arberth. Pan gychwynodd hi yno, 6 o blant oedd yn y ffrwd Gymraeg, ac o ganlyniad i'w hymroddiad a'i brwdfrydedd angerddol dros y Gymraeg, fe ffynnodd yr adran. Roedd dros 50% o ddisgyblion yr ysgol gyfan yn y ffrwd Gymraeg - tipyn o gamp o ystyried cefndiroedd Saesneg nifer helaeth o'r plant.

Roedd teulu a ffrindiau yn ganolog i Sheila. Roedd cael coffi gyda'r ddiweddar Eileen Williams yn ystafell gefn y siop yn dipyn o routine. Rhyfedd iawn yw cofnodi i'r ddwy ffrind agos farw ar yr union un diwrnod, sef 14eg Hydref. Rhyfedd o fyd!

Cofiwn yn dyner am Sheila a chydymdeimlwn â'r teulu ar eu colled.

Cymdeithas Cenedlaethol Hywel Dda Enillwyr Clwb Cant

Tynnwyd rhifau y bobol lwcus canlynol ym mis Hydref:

- 1af - Bysiau Cwm Taf - £50.
- 2ail - Denzil Davies - £40.
- 3ydd - David Jones - £30.
- 4ydd - Islwyn Davies - £20.

A rhain oedd y rhifau lwcus ym mis Tachwedd:

- 1af - Sharon Morris - £50.
- 2ail - Pat Price - £40.
- 3ydd - Meinir Eynon - £30.
- 4ydd - Simon Allen - £20.

Bydd gwobrau mis Rhagfyr yn cael eu tynnu ar y 7fed. gyda dau wobwr ychwanegol o £50 yr un. Pob lwc, a Nadolig Llawen i'n holl aelodau!

Hoelion Wyth - Cangen Hendygywn

Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor ar Nos Iau, Tachwedd 4ydd yn Lolfa Clwb Rygbi Hendygywn. Estynwyd croeso cynnes i'r siaradwr gwadd, sef Dai Rees (yn wreiddiol o San Cler) ond yn awr yn byw yn Sir Benfro.

Wedi ymddeol yn 1992, bu'n heddwys gyda Heddlu Dyfed Powys gan weithio mewn llawer tref ac ardal. Fel ditectif, bu'n gweithio am ddwy flynedd a hanner ar 'Operation Julie' - un o'r achosion mwyaf yn ymwneud â chyffuriau a gynhaliwyd erioed.

**GWASANAETH
CEIR HENDYGYWYN**

Canolfan
atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts a.y.y.b

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendygywn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193

**SIOP SIAN
CRYMYCH**



Crefftau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Crefftau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFôn: 01239 831230

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT
Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

Ar ôl ymddeol, cafodd ddamwain difrifol a allai fod wedi ei adael wedi ei barlysu. Ar ôl gwella, teimlodd fel rhoi rhywbeth yn ôl i gymdeithas am ei wellhad; dechreuodd gefnogi elusen 'Jubilee Sailing Trust'. Elusen yw hon sy'n cynnig mor-deithiau ar long hwyliu, i bobl o bob oedran sy'n dioddef o unrhyw anabledd, naill yn gorfforol neu yn feddyliol.

Pan mae'r teithwyr yma ar fwrdd y llong, hyd yn oed os mewn cadair olwyn, maent yn gorfod gweithio i hwylio'r llong yn ddiogel.

Roedd gan yr elusen ddwy long, sef y 'Lord Nelson' sydd wedi ei datgomisiyni erbyn hyn, a 'Tenacious'. Bu Dai ar lawer mordaith yn cynorthwyo'r teithwyr gyda'u problemau. Aeth â hwy ar fordaith i Dunkirk a chafwyd hanes o'r ymweliad â'r Bont 'Pegasus' a'r Caffi 'Pegasus' yn Normandy.

Roedd hwn yn gyflwyniad ardderchog a gyda chymorth sleidiau, yn dangos gwaith pwysig yr elusen. Cafodd gymeradwyaeth wresog a diolchwyd iddo gan Verian Williams.

HENLLANFALLTEG Penblwydd Hapus yn 18 oed



Cyfarchion penblwydd 18 oed i Lewis Gibbin, Drefach, Henllan Amgoed a ddathlodd ei benblwydd ar y 9fed o Dachwedd. Dymuniadau gorau i ti a chariad mawr oddi wrth Dad, Mam, Elen ac Owain

CWMBACH

Sefydliad y Merched Llanwinio

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Sefydliad y Merched Llanwinio ar brynhawn Mawrth, Tachwedd 9fed yn Neuadd Llanwinio. Croesawyd pawb gan y Llywydd. Y swyddogion am y flwyddyn nesaf fydd - Llywydd Ann Summerbell, Ysgrifennydd Chris Hadley a'r Trysorydd Pat Bates. Cafwyd adroddiad am weithgareddau Sir a'r gangen am y flwyddyn ddiwethaf ac adroddiad ariannol gan y Trysorydd a diolchwyd i Clint Henry am adolygu'r adroddiad ariannol.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 6ed pryd edrychwn ymlaen at ginio Nadolig yng Nghaffi Beca.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Delyth Robinson, Rhydcaernarfon ar ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed ar Ragfyr 1af. Dymuniadau gorau wrth y teulu i gyd.

RHYDWILYM

Dydd Gwener 22ain Hydref, ac ar y fynwent yn unig, cynhaliwyd angladd Teifion John, Dolbetws ac yntau yn 82 oed. Yr oedd yn briod â Beryl, ac yn dad i Geraint, Meinir, Emyr a Nerys. Yr oedd ganddo nifer o wyrion ac wyresau. Cofiw'n hefyd am Rhiannon, Morwen, Hafwen a Dyfrig wrth iddynt golli brawd.

Yr oedd yn ddiagon ac yn ymddiriedolwr yn Rhydwylym ers blynyddoedd. ac ef oedd y codwr canu cyn iddo golli ei iechyd. Yr oedd yr angladd yng ngofal y Parch Ken Thomas a rhoddwyd y deyrnged ar ran y teulu gan y Parchedig Huw George. Cydymdeimlwn gyda Beryl a'r teulu i gyd.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Eluned Jones, Llechwedd, ger Capel Newydd. Bu farw ei phriod Euros yn sydyn ym mis Hydref. Cynhaliwyd ei angladd breifat yn Amlogfa Parc Gwyn. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Eirian Wyn Lewis.

Ar ddydd Iau, 11eg o Dachwedd cynhaliwyd angladd y chwaer Heather Pearce. Yr oedd Heather yn ferch i'r Parch. Haydn J Thomas, cyn weinidog Rhydwylym a'i briod Miriam. Rydym yn cydymdeimlo gyda'i phriod Derek, ei mab Haydn, a'i merch Janet, a nifer o wyrion ac wyresau. Cydymdeimlwn hefyd gyda'i chwaer Kaye, ei phriod Neville a'r teulu i gyd.

Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Peter Thomas ⇨

**FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS**
FFENESTRI, DRYSAU, PVC
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Robert James
Efailwen, Clunderwen
01994 419735
*Ar agor am frecwast, cinio, te a swper.
Ystafell ychwanegol i eistedd 70
ar gyfer bob achlysur.*

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

Aberystwyth, gyda'r Parch. Huw George hefyd yn bresennol gyda gofal y gerddoriaeth.

Mae nifer o'n haelodau wedi colli perthnasau yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad i bob un ohonynt.

Y mae Beryl, Dyfrig a Nerys, wedi symud tai yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi gyd ar eich aelwydydd newydd.

Gwasanaethau

Rhagfyr 19eg: 2 o'r gloch - Cyfarfod Nadolig yng ngofal yr aelodau.

2022

Ionawr 9fed: 10.30 y.b. (Cymun) - Tudur Dylan Jones

Ionawr 23ain: 2 y.p. - Hefin Wyn

Dymunwn Nadolig Dedwydd i chi gyd.

CLUNDERWEN

Pum cenhedlaeth



Yn y llun gwelir Nin Lewis, hen hen famgu; Ann Thomas, hen mamgu; Faith Wright, mamgu; Dafydd Wright, tad gyda Noah bach.

Llongyfarchiadau i Alun John Griffiths, mab Ann a'r diweddar Dyfed, Neston, Clunderwen gynt, a Sophie Davies wyres Ann Bartlett, siop papurau gynt, ar eu dyweddiad. Mae'n debyg fod Alun wedi mynd lawr ar ei benglin yng nghanol y penguins yn Fferm Folly! Pob hwyl i chi'ch dau!

Cydymdeimlwn â llawer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Trist oedd clywed am farwolaeth Emyr Wyn Thomas, sef "Foot" a fu farw ar 27ain Hydref, yn 65 oed. Priod hoff Jean, brawd ffyddlon Eleri, Aled a'r diweddar Rhian. Mab y diweddar Mair a Glyn, yn wreiddiol o Bryniago, Login a Heol-y-gaer, Clunderwen. Bu'r

angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth, gyda'r Parch. Huw George yn gwasanaethu.

...hefyd Heather Pearce, gynt o Pantyffynon, Clunderwen, merch y diweddar Barch. Haydn Thomas, Rhyd-wilym. Gwraig Derek a mam annwyl Haydn a Janet, mamgu ac hen-famgu barchus. Bu Heather, (sef Mrs Pearce i blant yr ardal) yn athrawes yn Ysgol Brynconin am flynyddoedd. Claddwyd ym Mynwent Rhyd-wilym gyda'r Parch. Peter Thomas yn gwasanaethu.

Cydymdeimlwn gyda Wyn, Dylan a Michelle Harries, Llwyndyrys, ar farwolaeth eu mam Mair. Bu'r angladd yng Nghapel Blaenconin.

PENYBONT

C Ff I

Llwyddodd C Ff I Penybont i ennill Tarian Nantybwla drwy gipio'r ail safle yn Eisteddfod C Ff I Sir Gar, a'r trydydd safle yn adran y Gwaith Cartref.

Dyma'r canlyniadau:

Llwyfan Unawd 16 ac iau - 1af Celyn Richards

Llefaru 16 ac iau - 1af Celyn Richards,
2ail Olwen Roberts

Unawd Offerynnol 28 neu iau - 2ail Daniel O'Callaghan

Unawd 21 neu iau - 1af Hannah Richards,
2ail Daniel O'Callaghan

Llefaru 28 neu iau - 1af Hannah Richards,
3ydd Daniel O'Callaghan

Unawd Alaw Werin 28 neu iau - 1af Daniel O'Callaghan,
2ail Hannah Richards

Monolog 28 neu iau - 1af Olwen Roberts,
2ail Hannah Richards

Canu Emyr 28 neu iau - 2ail Hannah Richards,
3ydd Celyn Richards

Stori a Sain - 2ail Carwyn Jones a Mared Evans

Unawd Sioe Gerdd - 2ail Hannah Richards

Deuawd 28 neu iau - 1af Daniel a Phoebe

Parti Unsain - 1af

Gwaith Cartref

Cystadleuaeth i aelodau 16 neu iau - 2ail Celyn Richards

Brawddeg 28 neu iau - 3ydd Cao Pryce

Cystadleuaeth i aelodau 21 neu iau - 1af Elan Thomas

Celf a chrefft 28 neu iau - 1af Elan Thomas,
3ydd Hannah Richards.

Daeth Penybont yn gydradd 1af yn Noson Chwaraeoen y Sir.

A bu llwyddiant hefyd yn ddiweddar gyda'r barnu stoc ac arddangos.

Barnu stoc

Marie Hughes - 2il dan 16

Elan Thomas - 3ydd dan 18

Hannah Richards - 2ail dan 21

Paratoi oen

Gilbert Roberts - 1af

Elan Thomas - 2ail

Paratoi Cyw Iar

Ail - Hannah Richards a diolch i Rhiannon Thomas am hyfforddi

LLANDYSILIO

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sion Jenkins am ennill y gadair eto yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Sir Benfro, ac hefyd i Glwb Clunderwen am ddod yn 1af yn y meim i fwsig a 3ydd yn yr Eisteddfod. Pob lwc iddynt ym Mhonrhydfendigaid ar Sadwrn, Tachwedd 20fed.

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Alun Griffiths a Sophie Davies sydd wedi dyweddio.
...hefyd i Jess Robinson a Dyfed Cynan ar eu dyweddïad.

Priodas Ddiemwnt



60

Bu Hywel a Sadie Davies, Brynclud, Llandysilio yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar 28ain o Hydref. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Ysgol Brynconin

Ar ddiwedd y flwyddyn hon bydd Mrs Shan Clarke yn ymddeol ar ol blynyddoedd o ymroddiad fel athrawes yn ysgolion Cynradd Aberteifi, Bro Ingli, Maenclochog a Brynconin a phrif athrawes y ddwy ysgol - Maenclochog a Brynconin.

Rydym yn casglu tuag at anrheg ymddeol iddi, os hoffech gyfrannu, mae croeso i chi anfon eich rhodd mewn amlen naill a'i at Delyth Thomas, Ysgol Brynconin neu Mandy Evans, Ysgol Maenclochog.
Diolch yn fawr iawn.

Cylch Meithrin Llandysilio

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd ddillad ail law ac ati ar gyfer Bags 2 School. Codwyd £164 - gwych. Hefyd codwyd £112 drwy werthu teganau i'r rhieni a chynnal sêl Cist Car.

Addysg Gymraeg i Blant 2-4 oed, yn Neuadd Llandysilio. Bore Llun, Mawrth, Iau a Gwener. 9.00yb tan 12.00 canol Dydd. £8.00 y sesiwn

Cylch Ti a Fi Llandysilio

I blant 0-4 oed gyda rhiant/gwarchodwr.
Pob bore Mercher 10 yb tan 12 £3.00 y sesiwn

Am fwy o fanylion am y Cylch Meithrin a Ti a Fi cysylltwch â Delyth Roblin ar 07882639867.


Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Rydym nawr nôl yn cyfarfod yn y Neuadd. Os hoffech ymuno â ni, mae croeso mawr i chi.

Rydym yn cyfarfod ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30yh. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Rhagfyr 13eg.

Cydymdeimlwn â theulu 12 Maes y Bryn, Llandysilio ar farwolaeth sydyn Roy Davies. Gŵr annwyl Alvira, tad Andrew, Elfair, Richard ac Eirianwen a'r wyrion i gyd.

WENDY THOMAS



Wendy a'i phartner Dave

Mae pentref Llandysilio yn ddyledus iawn i Wendy Thomas am yr hyn mae wedi cyfrannu i fywyd yr ardal yn y chwarter canrif ddiwethaf. Oherwydd ei bod wedi symud o'r pentref yn ddiweddar, mae aelodau Pwyllgor Neuadd a Maes Chwarae Llandysilio

io yn awyddus i ddiolch iddi, ar ran pawb, am ei hymroddiad a'i hymrwymiad i'r pentref dros y blynyddoedd.

Ganwyd Wendy yn 1966 yyn Y Trallwng, Powys i Len a Sheila Jones a chafodd ei magu ar eu fferm ger y dre. Trwy gyd-weithio'n galed adre, a chael addysg dda, derbyniodd Wendy brofiadau byddai'n rhoi sail iddi i'r dyfodol. Ymunodd a'u rhieni yn ei fferm newydd yn Sir Gâr yn 1982 ac aeth i Ysgol Ramadeg Hendy-gwyn i astudio ar gyfer arholiadau Lefel 'A'. Yn ystod yr amser hwn daeth yn aelod sefydlog o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanboidy a dechreuodd edrych am yrfa.

Wrth wneud swydd dros yr haf yng Ngwesty'r Llew Du yn Aberteifi cafodd Wendy y cyfle, yn dilyn cyfweiliad yng Nghaerdydd, i weithio i Fanc Barclays ym 1984. Dechreuodd weithio yng nghanen Caerfyrddin yn Awst y flwyddyn honno.

Erbyn hyn mae Wendy wedi gweithio i Fanc Barclays am dros dri deg saith blwyddyn. Yn ystod yr amser mae wedi gwneud amrywiaeth o swyddi mewn sawl lleoliad gan gynnwys Arberth, Dinbych-y-Pysgod, Caerfyrddin a Hwlfordd ac wedi dysgu staff mewn nifer o leoliadau yng nghanol a De Cymru. Ar hyn o bryd hi yw Rheolwr Gweithrediadau yn Hwlfordd.

Mae rhestr o'r swyddi mae Wendy wedi gwneud yn ystod ei gyrfa gyda Barclays yn ddiddorol iawn ond, mae'r sylw cyson ynglŷn â'r hyn mae wedi cyflawni, yn sôn am ei gwasanaeth i'r cyhoedd.

- Cyflawni a chefnogi anghenion busnes â'r cyhoedd, sydd yn newid yn gyson oherwydd Cofid.
- Gyfrifol am gyflawni gwasanaeth a chanlyniadau arbennig i'r cwsmeriaid i ateb eu gofynion.
- Gwobr Cydnabyddiaeth Fyd-eang am ei gwasanaeth i'r cwsmeriaid.
- Arbenigedd mewn rheoli tîm o bobl, gyda'r canlyniad bod ei chyd-weithwyr yn ei pharchu yn fawr iawn.
- Llythyr personol oddi wrth y Prif Weithredwr, yn dilyn cysylltiadau oddi wrth y cyhoedd, yn canmol ei gwasanaeth rhagorol i'r cwsmeriaid.

Mae ei hagwedd yn ei gwaith hefyd yn berthnasol i'w gwaith gwirfoddol. Mae wedi bod yn ased i'r ardal tra roedd yn byw yn Llandysilio.

Cefnogodd Wendy lawer o sefydliadau lleol trwy gynllun Cyllid Cydweddu Gwirfoddoli Barclays a'r canlyniad oedd bod rhyw £20,000 wedi ei buddsoddi yn y gymuned leol.



Wendy, James a Sion

Daeth Wendy i Landysilio yn 1994 a chafodd dau fab, James a Siôn. Yn ysgolion Brynconin a'r Preseli cafodd y ddau eu haddysg gynnar. Aeth James ymlaen i Brifysgol y

Met yng Nghaerdydd a derbyn gradd dosbarth cyntaf BSc yn Rheoli Busnes a Chyllid. Ar hyn o bryd mae'n gweithio yn Noc Penfro gyda Atlantic Trampolines. Aeth Siôn hefyd i Brifysgol y Met a derbyniodd gradd 2.1 BSc (Anrh) mewn Dylunio a Thechnoleg Bensaernïol. Technolegydd Pensaernïol yw ei swydd yn HLN Group yng Nghaerdydd.

Mae Wendy yn dal i wirfoddoli yn ei chymuned. Yn y

gorffennol mae wedi bod yn ysgrifenyddes a thrysorydd Clwb Ffermwyr Ifanc Llanboidy ac, am sawl blwyddyn, Thrysorydd Sioe Ffermwyr Ifanc Clunderwen. Buodd yn gadeirydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Brynconin, Trysorydd Cylch Meithrin y pentre' a chynrychiolydd rhieni a chadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Brynconin. Mae wedi bod yn Drysorydd Neuadd y Pentre' a'r Maes Chwarae am ugain mlynedd.

Yn Templeton mae Wendy yn byw erbyn hyn gyda'i phartner Dave. Yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau cerdded - enwedig llwybr yr arfordir, gwneud gemwaith, cerddoriaeth byw a chwmni ei theulu a ffrindiau.

Mae gan Wendy bersonoliaeth naturiol a deniadol sydd yn amlwg yn ei gwaith a'i bywyd preifat. Diolchwn yn fawr iddi am ei chyfraniad i fywyd Llandysilio a dymunwn bob hapusrwydd iddi a'i theulu i'r dyfodol.

Sefydliad y Merched Llandysilio a Clunderwen

Mae aelodau Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio wedi bod yn brysur iawn yn cydweithio, naill a'i mewn grwpiau neu yn unigol, i wneud 100 o wahanol weithgareddau fel sialens, dros y misoedd diwethaf.

Maent wedi darllen 100 o lyfrau, cerdded 100 milltir, nofio 100 hyd pwll nofio, seiclo 100 milltir, cwblwlhau 100 Pos Sudocu, codi 100 o eitemau sbwriel ar draeth lleol, cwblwlhau 100 o oriau gwirfoddoli, codi 100 o chwyn o'r ardd (pob dydd am wythnos), tyfu ne100 o blanhigion i'w rhoi am ddim, coginio 100 o cacenau, eto i'w rhoi i ffwrdd, cyfrannu 100 o fygydau gwyneb a gwneud hetiau i fabanod a anwyd cyn pryd a'u cyfrannu i ysbyty lleol. Da iawn ferched !!

Os hoffech ymuno â Sefydliad y Merched, maent yn cyfarfod ar nos Lun cyntaf o bob mis yn Neuadd Clunderwen.

NEWYDDION BLAENCONIN

DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd Oedfa o Ddiolchgarwch ar y Sul cyntaf o Dachwedd yng nghwmni nifer o aelodau a chyfeillion yr Eglwys. Soniwyd am Gyfarfodydd COP26 a'r cyfrifoldeb sydd arnom ... BAWB – i gofio'r geiriau o Lyfr Genesis sef, Cymerodd yr Arglwydd Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw'. Braint yw cael 'trin' y tir – cyfrifoldeb yw 'cadw'r tir'.

SUL y COFIO

Hyfryd oedd gweld y gymuned yn uno i gofio o flaen y Gofeb yng Nghlunderwen ar yr ail Sul o Dachwedd.

Mae 2022 yn flwyddyn o 'Gofio' arbennig gan fod canmlwyddiant Cofeb Llandysilio ym mis Mawrth a Chlunderwen ym mis Medi.

MAIR LLWYNDYRYS

Tristawyd yr Eglwys gyfan o glywed y newyddion am farwolaeth Mair Harries, Llwyndyrys. Yn wreiddiol o Fynachlogddu ond yn un o ffyddloniaid Blaenconin ers blynyddoedd bellach. Bu 'Tim Cerddorol' – Idris a Mair – yn gefn i ganiadaeth y Cysegr am flynyddoedd lawer. Cofiw'n am Wyn, Dylan a Michelle.

**NEWYDDION o'r FFYNNON****SUL y COFIO**

Er gwaethaf y pandemig, daeth y gymuned ynghyd ar yr ail Sul o Dachwedd i gofio. Cynhaliwyd yr Oedfa o flaen y Gofeb gyda'r Parchedig Guto Llewelyn yn darllen o'r Ysgrhythur ac yn arwain y gynulleidfa mewn gweddi. Darllenwyd enwau'r bechgyn oddi ar y Gofeb gan Jamie Lewis. Arweiniwyd y ddefod gan y Parchedig Huw George.

TRELECH

Gwellhad buan i Mrs Ina Barnett, Clun View sydd wedi cael anffawd adref ac wedi torri ei garddwrn a'i thrwyn.

Gwellhad buan hefyd i Mr Denzil Elias, Caerwenog sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Rees, Maes y bont ar farwolaeth ei chefnider Benjamin Davies, Cwmfelin Mynach

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion a chysylltiadau'r ardal.

Capel y Graig Trelech

Gwasanaethau: Cynhaliwyd gwasanaethau mis Medi ar y 12fed gyda Mr Lyndon Lloyd ac ar y 26ain gyda'r Parchg Tom Defis. Diolch yn fawr iawn i'r ddau am eu gwasanaeth gwerthfawr.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Diolchgarwch ar nos Fawrth, 12fed o Hydref gyda'r Parchg Emyr Gwyn Evans, Tymbl. Diolch yn fawr iawn iddo am ei bregeth amserol a phwrpasol ar y greadigaeth a'r amgylchedd. I ddilyn cafwyd bwffe blasus yn y Beca. Diolch yn fawr i bawb fu'n paratoi a threfnu.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc ar fore Sul, 31ain o Hydref. Thema'r plant oedd 'bwyd' a thema'r bobl ifanc oedd yr 'amgylchedd' gan fod Cop 26 yn cymryd lle drannoeth y cwrdd. Diolch i blant yr Ysgol Sul

a'r bobl ifanc am gymryd rhan a diolch i Eirlys Phillips, Eleri Rees ac Anwen Phillips am hyfforddi ac i Eirlys ac Eleri am gyfeilio. Yn ogystal â'r eitemau o fwyd a roddwyd gan y plant tuag at y banc bwyd, rhoddwyd casgliad y ddau wasanaeth hefyd tuag at 'Banc Bwyd Caerfyrddin' – diolch i bawb a wnaeth gyfrannu.

Sul, 12fed o Ragfyr am 1.30 yp - cynhelir Gwasanaeth Nadolig gan blant yr Ysgol Sul a'r bobol ifanc.

Ymweliadau

Ar ddechrau mis Tachwedd pleser oedd cael croesawu dau deulu a ddaeth i ymweld â Chapel y Graig. Roedd yr ymwelwyr cyntaf wedi dod o Seattle, UDA, ac yn ddisgynyddion i deulu Griffiths o Blaen-nant a Nant y gannwyll, Dinas, Trelech. Roeddent wedi olrhain bedyddiadau eu hynafiaid yn y 1820au a'r 1830au i Gapel y Graig. Roedd eu hen, hen datcu a mamgu wedi priodi yn Eglwys Sant Teilo felly ar ôl eu hymweliad a Chapel y Graig, aethant am dro i'r eglwys.

Roedd yr ail deulu yn dod o Gwrtnewydd, sef Gareth ac Angela Jones, gyda Gareth yn ŵyr i ŵr a godwyd i'r weinidogaeth yng Nghapel y Graig ar ddechrau'r 20fed ganrif sef y Parchg Arthur Jones. Enw hen datcu Gareth oedd Thomas Jones ond roedd pawb yn ei adnabod fel Twmi Sâr. Cafodd Twmi ei eni yn Rhydtre, yr ifancaf o bump o blant. Cafodd ef a'i wraig gyntaf unarddeg o blant ac Arthur oedd eu plentyn ieuengaf ond bu farw mam Arthur pan oedd ef ond yn naw mlwydd oed ac fe aeth i fyw at deulu'r Bowen yn Lleinau. Yn llyfr y diweddar Muriel Bowen Evans 'Capel-y-Graig, Tre-lech, 1703-2003', rhennir rhai o atgofion y teulu gan feibion y Parchg Arthur Jones, sef Alun Parker Jones, Wyn Jones (tad Gareth) ac Iwan Jones.

Os oes gan unrhywun wybodaeth ychwanegol am y ddau deulu yma, a fydddech chi mor garedig a chysylltu gyda Jean ar 01994 484334 os gwelwch yn dda.

LLANBOIDY**Capel Trinity**

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod sef Mr Benji Davies. Roedd Benji wedi ffermio Llech-clawdd ar hyd ei oes gan gymryd gofal arbennig o'r fferm. Yn berson cyfeillgar, gweithgar a diolchgar roedd Benji yn cynrychioli bywyd cefn gwlad ar ei orau. Roedd yn annwyl iawn gan ei deulu, ei ffrindiau a'i gymdogion. Ac rydym yn cydymdeimlo gyda nhw gyd yn eu colled.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn Neuadd y Farchnad dan lywyddiaeth Chris Murrell. Ar ôl trafod y busnes, cafwyd hwyl yn chwarae 'Cwblhau y Chwilen'.

Ym mis Tachwedd llywyddwyd y cyfarfod gan Chris Murrell cyn trafod y busnes. Penderfynodd yr aelodau barhau i gwrdd yn y Neuadd, yn y prynhawn am 2.30 o'r gloch.

Hefyd roeddent am gael blwch o gynhwysion ar gyfer te yn lle mynd allan am ginio Nadolig.

Bu'r llywydd yn llongyfarch Norah Heseltine ar gael erthygl o'i hanes yng nghylchgrawn y sir; hefyd i June am ennill gwobr goffa Zena Jenkins am ysgrifennu 'Stori Fer'.

Hwn oedd ein Cyfarfod Blynnyddol a chroesawodd y llywydd, Frankie Owen Pavitt i fod yn gyfrifol am y broses ar gyfer pledleisio am lywydd newydd. Cafodd Denise Harris ei hethol fel Llywydd a Gwen Collard a June Wells fel is-lywyddion. Bydd Jan Griffiths yn parhau fel Ysgrifennydd a Valerie Dixon fel Trysorydd. Chris Murrell fydd yn cadw cofnodion.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Paul Saer a Sarah (Commercial House gynt) ar eu priodas yn ddiweddar.

Gwellhad buan

Da yw clywed fod Marion Davies, Bryn Emlyn wedi dod adref o'r ysbyty ac yn llawer gwell. Rydym yn meddwl am y rhai sy'n anhwylyd ar hyn o bryd ac yn dymuno gwellhad buan iddynt.

Cornel Garddio

gan W John Davies

Ar y 9fed o Dachwedd bu'n ddiwrnod llaith braidd yn ddiflas. Ar ôl mis delfrydol o dywydd cymysa glyd, nid ydym eto wedi cael digon o rew i gwtogi tyfiant y "Dahlais". Pan ddaw'r amser, gwnewch eich gorau i'w sychu, yna torrwch y gwreiddiau tenau i ffrwdd, a cadwch gweddill y gwreiddiau ben i waered. Mae hyn yn eu cadw'n sychach ond rhaid wrth gwrs eu cadw'n ddiogel o'r rhew dros y gaeaf hefyd. Mae hadau bresych cafodd eu hau mis Awst, wedi tyfu digon i gael eu trawsblannu allan mewn rhestr erbyn hyn. Os ydych wedi gwneud hyn, gwnewch yn siwr eu bod digon dwfn fel mae dim ond y dail sydd i'w gweld, a bod y pridd yn weddol galed oddeutu'r goes. Fel hyn gwnaeth gwynt y gaeaf llai o ddifrod iddynt. Rwyf wedi plannu rhai letys mewn ffrâm o dan wydr, ac maent yn tyfu yn raddol ond yn dda hyd yn hyn. Rhaid eu dyfrio yn ofalus tra bod tyfiant, er mwyn cadw blas ffafriol, ac os gawn aeaf oer mae letys yn tueddu i suro yn weddol gyflym.

Fel gyda'r bresych, gwnewch yn siwr fod coed rhosys hefyd ddim yn siglo ambwyty yn y gwynt dros y gaeaf. I leihau'r baich, tociwch hanner y llwyni bant cynted â phosib a llenwch dipyn o bridd o amgylch coesau'r planhigion er mwyn eu cadw yn soled ac yn ddiddos drwy dywydd garw y gaeaf. Os gwn ni, a oes chwant ar ambell arddwr dyfu winwns yn weddol gynnar? Wel pam lai, os oes gennych dŷ gwydr, heuwch nifer fechan o hadau o amgylch dydd Nadolig a chadwch lygaid arnynt a'u dyfrhau. Pan fyddant wedi tyfu rhyw dair modfedd, traws blawch hwy allan mewn potiau bychan a mae'n bosib wir bydd gennych blanhigion reit gryf erbyn y gwanwyn. Pob lwc os am fentro, a chofiwch fe fydd bois y sioeau wedi hau canol mis Tachwedd.

Pob haf rwy'n chwistrellu cymysgedd o ddŵr a fflwr dros y tŷ gwydr er mwy osgoi gwres mwyaf yr haul. Mae popeth yn tyfu'n well dan gysgod hwn, ond erbyn hyn mae'n bryd ei olchi ffrwdd er mwyn cael y golau gorau posib dros misoedd tywyll y gaeaf. Gobeithio y caf dywydd ffafriol i wneud hyn yn fuan.

Ofnaf fod y golofn braidd yn fyr mis hwn, a rwy'n ofni fod amser yn dal i fyny â'r crwt hwn hefyd. Byddau'n dipyn o gymorth i mi petau ambell ddarl-lenwr yn anfon ambell gwestiwn i mewn i'r Cardi Bach ynglŷn a garddio a bydd yn bleser ei hateb drwy'r golofn, heb enwi neb os y dymunwch. Felly, edrychaf ymlaen i glywed oddi wrthych.

Nadolig Llawen i bawb, a Blwyddyn Newydd dda.

Mae John wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo. Gol.

Neuadd y Farchnad, Llanboidy

**NOSON FAWR
CLWB 200 Y CARDI BACH
a Noson Gwis**

yng ngofal Iola Wyn

**Nos Wener, Chwefror 18fed, 2022
am 7.30 y.h.**

Tîmau o 4 - £50 i'r tîm buddugol

**(Ein bwriad yw cynnal yr uchod os bydd
canllawiau Covid-19 yn caniatáu)**



Eisteddfod C.Ff.I Sir Gâr 2021

Braf oedd bod nôl eleni ar gyfer Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin, a hynny wyneb yn wyneb. Bu cystadlu brwd yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin yn Eisteddfod Sir Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr ar Ddydd Sadwrn, 23ain o Hydref 2021. Ar ôl dydd cyfan o adloniant o safon uchel iawn, C.Ff.I Llanllwni cipiodd darian yr Eisteddfod eleni. Llongyfarchiadau i'r clwb a hefyd i C.Ff.I Penybont am ddod yn ail, ac i C.Ff.I Llanllwni am gipio'r wobr gyntaf yn yr adran gwaith cartref hefyd.

Roedd gwaith caled iawn o flaen ein beirniaid gyda'r holl gystadlu. Mae ein diolch yn mynd iddynt hwy i gyd am eu gwasanaeth. Bu Mr Gwyn Nicholas yn beirniadu'r Adran Gerdd, Mrs Lowri Jones yn yr Adran Llefarydd, Mr Emyr Lloyd yn yr Adran Ysgafn, Eurfyl Lewis yn yr Adran Gwaith Cartref a Dr Mererid Hopwood am feirniadu'r cystadlaethau Rhyddiaith a Cherdd.


Ein llywydd ar gyfer yr Eisteddfod eleni oedd Mrs Ann Davies. Diolch yn fawr iddi am ei geiriau pwrpasol o'r llwyfan ac am ei rhodd hael tuag at gyllid y mudiad yn Sir Gâr.

Buom yn ffodus iawn o gael Elin Rees yn gyfeilydd yn yr Eisteddfod eleni eto. Rydym am ddiolch iddi am ei gwasanaeth a hefyd i'r unigolion arall fu'n cyfeilio i'r aelodau. Diolch hefyd i'r sawl fu'n arwain yn yr Eisteddfod eleni - Hefin Evans, Sion Evans, Ffion Medi Rees ac Aled Thomas. Diolch yn fawr hefyd i bawb oedd yn gweithio tu cefn llwyfan ac wrth ddrysau'r fynedfa, yn gwerthu raffl ac yng ngofal y siop.

Mae ein diolch yn fawr i'n cofiaduron oedd wrthi'n gofalu am y sgoriau. Diolch i Marian Thomas ac Angela Isaac a hefyd i Llinos Jones fu hefyd wrthi yng ngofal y tystysgrifau. Diolch yn fawr hefyd i Dylan Bowen, Mathew Jones ac Arwel Jones oedd wrthi yng ngofal y sain a'r golau.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Nia Thomas o C.Ff.I Llanddarog am gael defnyddio'r goron yn seremoni'r coroni a chadeirio Eisteddfod C.Ff.I Sir Gâr eleni eto. Enillydd y goron yma oedd Luned Jones o C.Ff.I Llanllwni. Cafodd coron ei roi gan Gadeirydd y Sir, Hefin Evans i Luned Jones â chreuwyd gan Dylan Bowen. Enillydd y gadair eleni oedd Alpha Evans o C.Ff.I Cwmann. Roedd y gadair yn rhoddedig eleni gan Gadeirydd y Sir, Hefin Evans. Cafodd y gadair yma ei greu gan Llyr Thomas. Llongyfarchiadau i Luned Jones a Alpha Evans, a diolch i bawb a gymrodd rhan yn y seremoni, yn enwedig i Elfyn Davies, Llywydd y Sir am redeg y seremoni yn hwylus.

Yn ogystal â seremoni Cadeirio Eisteddfod C.Ff.I Sir Gâr 2021, cynhaliwyd seremoni Gadeirio Eisteddfod Rithiol C.Ff.I Sir Gâr a chafwyd ei gynnal nôl ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn er mwyn clodfori



C. Ff. I. Penybont a ddaeth yn yr ail safle

gwaith Sioned Howells, C.Ff.I. Llanllwni a enillodd y Gadair a'r Goron. Cafodd anrheg ei roi o goron gan Lywydd y Sir 2020-21, Jean Lewis â greuwyd gan Dylan Bowen ac roedd cadair yn rhoddedig gan Gadeirydd y Sir 2020-21, Iestyn Owen a greuwyd hefyd gan Iestyn Owen. Diolch i holl Swyddogion C.Ff.I. Sir Gâr am stiwardio'r Eisteddfod a diolch i Chyfrifiwr LHP, Cyfreithwr Ungood-Thomas & King a David ac Anthony o Jin Talog am noddi'r digwyddiad.



YSGOL BANCYFELIN

Cwrdd Diolchgarwch

Pleser o'r mwyaf oedd cael mynd yn ôl allan i'r gymuned i gynnal ein Cwrdd Diolchgarwch eleni, er mai dim ond staff, disgyblion a'r Parch. Beti Wyn James oedd yn yr oedfa. Thema'r gwasanaeth oedd edrych yn ôl ar y deunaw mis diwethaf gan fod yn ddiolchgar am bawb a phopeth sydd wedi ein helpu. Gwnaed fideo o'r gwasanaeth er mwyn ei rannu â'r rhieni a rhannwyd fideos byr hefyd ar dudalen Facebook Pobl Bancyfelin.



Ymweliad Mike Phillips

Roedd hi'n fore cyffrous iawn yn Ysgol Bancyfelin ar fore olaf yr hanner tymor, pan ddaeth un o'n cyn-ddisgyblion i ymweld â ni. Roedd disgyblion yr ysgol wedi bod yn brysur yn creu arddangosfa ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwrandao ar atgofion Michael o'i gyfnod yn Ysgol Bancyfelin a hefyd am ei yrfa yn y byd rygbi. Braff oedd croesawu cyn aelo-

dau o staff nol i'r ysgol ac roedd tyrfa o bentrefwyr yn aros tu allan i'r ysgol i siarad ag ef.



Mike Phillips ar bwys yr arddangosfa a grewyd gan y plant



Plant a'r staff gyda Mike Phillips

Malws Melys



Fel rhan o'u gwaith thema ar Ddathliadau a Noson Tân Gwyllt, bu disgyblion Dosbarth y Llan yn mwynhau tostio malws melys.

Rygbi

Yn ddiweddar bu Nico Setaro -Swyddog Datblygu Rygbi gyda'r Sgarlets yn cynnal sesiwn hyfforddiant rygbi gyda'r disgyblion yn nosbarth Cywyn. Efallai y gwnawn ni ddarganfod Mike Phillips arall yn yr ysgol!

YSGOL HAFODWENOG

Gwisgo Pinc a Taith Gerdded

Bu'r disgyblion yn gwisgo pinc i'r ysgol am gyfraniad o £1 neu fwy a buodd staff Hafodwenog a Phenboyr yn cerdded o ysgol Penboyr i Hafodwenog. Y cyfan er mwyn codi arian tuag at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli. Casglwyd dros £3,000 tuag at yr elusen. Diolch i bawb am gyfrannu.



Ffarwelio a Mrs Thomas

Cynhaliwyd gwasanaeth cyn hanner tymor er mwyn dweud ffarwel i Mrs Anwen Thomas, athrawes dosbarth Rhos Fach. Bu'n gweithio yn Hafodwenog ers dros 7 mlynedd. Diolch yn fawr iddi am ei gwaith yn ystod yr amser a phob lwc yn ei swydd newydd.

YSGOL BRO BRYNACH

Ar y 15fed o Hydref, dathlwyd diwrnod 'Shwmae Su'mae' yn yr ysgol; drwy gwisgo coch, gwyn neu gwyrdd. Yn ystod y prynhawn buodd y disgyblion yn gwneud amryw weithgareddau a gwrando ar raglen radio BBC Cymru gyda Marc Griffiths. Cafwyd hwyl yn gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg, dawnsio a chlywed enw'r ysgol yn cael ei chyhoeddi ar y radio.

Ar ddiwedd yr hanner tymor, cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol. Yn anffodus oherwydd yr amgylchiadau presennol, nid oedd yn bosib cynnal gwasanaeth cyhoeddus, felly recordiwyd gwasanaethau y dosbarthiadau a'u rhannu gyda'r teuluoedd. Codwyd arian eleni tuag at Uned Gofal Dwys Glangwili er cof am Robert Pugh, rhiant yn yr ysgol.

Diolch PC Cath am rannu gwybodaeth pwysig am ddiogelwch ar y we gyda disgyblion dosbarth Cynnin a Gronw.

Braf oedd derbyn y paneli comic wrth cwmni CISP. Maent yn lliwgar ac yn llawn gwybodaeth lleol. Mwynheodd y plant ddysgu am eu hanes lleol a chreu y paneli yma.



Paneli CISP

Cynhaliwyd gwasanaeth yr ysgol gyfan dros TEAMS gyda'r pennaeth i ddathlu diwrnod y cofio. Mwynhaodd y plant ymgymryd mewn gweithgareddau amrywiol megis creu pabi a llusern.

Dathlodd disgyblion yr ysgol wythnos gwrthfwlio a thrafod thema'r wythnos sef un gair caredig. Gwisgodd y plant sanau od, eitem ymarfer corff, hoff liw, het neu gwallt gwyllt.

Ar Dachwedd 19eg dathlwyd diwrnod Plant Mewn An-gen, drwy wisgo dillad smotiog a chymryd rhan mewn gweithgareddau hwylus.

Mae disgyblion dosbarth Gronw wedi cael cyfle i ymddangos ar raglen 'Helo Shwmae!' ar S4C, yn arddangos arbrawf gwyddonaeth a wnaethant yn y dosbarth.

Mae'r disgyblion yn recordio CD Nadoligaidd eleni a byddan nhw ar werth yn mis Rhagfyr am £8. Os hoffech archebu un, cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosib. ➡



Dosbarth
Lliw yn lliwio
Pudsey ar ddi-
wrnod Plant
Mewn Angen

Gemau Buarth gyda Menter



Buodd Ceris o Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr allan i'r ysgol er mwyn dysgu gemau buarth newydd i holl disgyblion yr ysgol.

Diwrnod Plant Mewn Angen



Ar y 19eg o Dachwedd buodd y Cyngor Ysgol yn brysur yn cynnal digwyddiadau hwyl yn y prynhawn. Daeth Pydsi draw i weud helo wrth y disgyblion. Codwyd £127.56

PC Llewellyn

Daeth PC Llewellyn i'n gweld er mwyn cael sgwrs gyda disgyblion am gadw'n ddiogel ar lein.

Diwrnod Shwmae Sumae

Ar y 15fed o Hydref dathlom ddiwrnod Shwmae Sumae yn yr ysgol. Yn y prynhawn cafodd y plant ddisgo wrth wrando ar Marci G.

Wythnos gwrth fwlio



Yn ystod mis Tachwedd cafom wythnos gwrth fwlio lle roedd gofyn i ddisgyblion wisgo pethau dwl pob dydd o'r wythnos. Ein hoff ddiwrnod oedd diwrnod sanau dwl!

**Helpwch ni i godi
£1000 ar gyfer
YSTAFELL DDOSBARTH
AWYR AGORED
Ysgol Bro Brynach**

SUT ALLWCH CHI HELPŴ?

1. Prynwch dagiau rhodd am £1 yr un.
2. Ysgrifennwch eich enw a'ch rhif cyswllt ar y tagiau.
3. Byddwn yn hongian eich tag ar ein coeden Nadolig.
4. Byddwn yn dewis tagiau ar hap a bydd y tagiau lwcus yn ennill hamper o nwyddau hyfryd.

Gellir prynu tagiau wrth rieni Bro Brynach neu o'r ysgol

YSGOL BECA

Ffarwelio â Mrs Freeman



Ffarwelio â Mrs Freeman, cogyddes yr Ysgol ar ôl 21 mlynedd o goginio bwyd blasus i blant Ysgol Beca. Diolch am eich gwaith caled Mrs Freeman a phob lwc!

YSGOL GRIFFITH JONES

Diwrnod Cofio T. Llew Jones

Ym mis Hydref bu'r ysgol yn cofio am y bardd a'r awdur T. Llew Jones. Bu'r dosbarthiadau'n defnyddio ei weithiau fel sbardun i waith iaith y dydd. Bu disgyblion o Flwyddyn 6 Pwyll yn trafod y gerdd 'Y Lleidr Pen Ffordd' tra bu Dosbarth Derbyn Dewi yn mwynhau perfformio 'Dawns y Dail' yn yr awyr agored.

Diolchgarwch

Roedd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn rhithiol eleni eto ac fe gafwyd eitemau amrywiol gan y dosbarthiadau a gafodd eu rhannu gyda'r rhieni yn 'Hwb'. Eleni fe ofynnwyd am gyfraniadau tuag at Fanc Bwyd Hendygywyn. Diolch yn fawr i'r rhieni am eu holl roddion hael.



Rhoddion caredig i Fanc Bwyd Hendygywyn am ein casgliad diolchgarwch.

Siarter Iaith

Bu Blwyddyn 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cwis Dim Clem' gyda Menter Iaith Sir Gorrlewin Sir Gâr. Ieuan Jenkins, Cian Grant, Llyr Davies a Mia Gleeson oedd yn cynrychioli'r ysgol eleni. Diolch i Ceris o'r Fenter am yr holl waith trefnu.

Plant Mewn Angen

Cafodd y disgyblion gyfle i gael diwrnod heb wisg ysgol i godi arian ar gyfer Plant Mewn Angen. Y thema eleni oedd 'dillad disglair'. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol wasanaeth arbennig a bu cystadleuaeth lliwio Pydsi.



Dosbarth Arthur yn mwynhau diwrnod Plant Mewn Angen gyda Pydsi

Sul y Cofio

Cafwyd dwy funud o dawelwch ar yr 11eg o Dachwedd gyda phob dosbarth yn cynnal gwasanaethau o fewn eu dosbarthiadau. Bu dau aelod o'r Cyngor Ysgol sef Dewi Morris a Seren Ayre yn cynrychioli'r Ysgol yn y Gwasanaeth Cofio wrth gofeb Sanclêr.



Dosbarth Branwen wrth y gofeb yn San Cler



Dewi a Seren yn gosod torch a chroes ar y gofeb

Ymweliadau

Hyfryd oedd croesawu Cwmni Theatr 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol ar gyfer perfformiad o sioe 'Glenys Myfanwy'. Mwynhaodd dosbarthiadau Pwyll, Myrddin, Culhwch, Hywel a Branwen y sioe a oedd yn berthnasol iawn i'w thema y tymor yma sef 'Y Blits'.

Ymwelwyr


Bu cwmni 'Kerbcraft' yn brysur yn hyfforddi disgyblion Blwyddyn 2, gan sicrhau fod gan bob un ohonynt y sgiliau diogelwch hanfodol wrth groesi'r ffordd.

Daeth cynrychiolydd o'r Sgarlets, sef Nico Setaro, atom i ddatblygu sgiliau rygbi disgyblion Blwyddyn 5 a 6.

Lles

Nodwyd 'Wythnos Gwrth-Fwlio' eleni drwy gynnal gweithgareddau ym mhob dosbarth i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahanol fathau o fwlio a sut i ymdrin â nhw.

Cornel Llên



Lawnsio llyfr olaf John Tudor Jones gan y teulu er cof am eu tad annwyl ac awdur llên gwlad lleol a fu farw ym mis Ionawr yn 94 oed.

Roedd John Tudor Jones yn ffermwr pan yn ifanc ac yna yn arwerthwr amaethyddol. Mae'r llyfr hwn yn adrodd ei anturiaethau gyda'i deulu a'i ffrindiau yng Ngorllewin Cymru a thu


hwnt a hynny gydag hiwmor unigryw. Mae noson mewn cell a'i gysylltiad rhyfeddol gyda'r 'Great Train Robbery' yn cael eu holrhain yma. Addasiad o'r llyfr Cymraeg 'Cofio'r Hwyl' yw hwn a chafodd ei addasu'n gelfydd i'r Saesneg gan Sioned Lleinaw. Mae'r llyfr hwn yn ddilyniant i'r llyfrau 'Cofio Nôl' neu 'Recollections' yn Saesneg.

Treuliodd John Tudor ei oes gyda chadwraeth yn rhan annatod o'i fywyd - yn plannu coed, yn cadw ac ailwneud peiriannau'r gorffennol a thractorau'r oes a fu, a chynnal hen arferion cefn gwlad. Gadawodd John Tudor waddol ysgrifenedig ar ei ôl hefyd ar gyfer ei deulu, ei ffrindiau a chymunedau Gogledd Cymru. Roedd 'cadw'r oes a fu i'r oesoedd a ddêl' wrth galon yr holl a wnaï.

Oherwydd galw parhaol, mae Cofio Nôl, Cofio'r Hwyl, *Recollections* a'r llyfr hwn *Those Were the Days* ar gael yn eich siop lyfrau leol yng Nghaerfyrddin, Aberaeron ac Aberteifi neu wrth gysylltu gyda catherine424@msn.com neu ffonio 07977425703. Mae'r llyfrau ar gael drwy'r siop leol yn Drefach Felindre hefyd.

Aled Eynon

Pum Diwrnod a Phriodas gan Marilyn Samuel



Llyfr yn llawn hiwmor am drafferthion wrth baratoi priodas. Mae mab ieuengaf Carys (sef Geth-in) yn penderfynu priodi Rebecca, yn yr Eidal ac mae Carys yn edrych ymlaen at fwynhau Sorrento. Yn gwmni, mae ei mab hynaf, Sion a'i deulu yn mynd hefyd; heblaw rhain mae'r famgu, sef Thelma yn mynd gyda nhw.


Mae'r stori yn son am yr holl drafferthion wrth ofalu am y famgu -

gwaith caled a dweud y lleiaf.

Mae'r teulu yn treulio tua wythnos yn yr Eidal (gan ymweld â llu o lefydd poblogaidd) ac mae'r cyfan yn llawn o wahanol brofiadau - cyn dyddiad y briodas ac mae hwn yn hanes arall. Llyfr llawn hiwmor - y lleddf a llon a byddai'n gwneud ffilm arbennig o dda.

Gwasg y Lolfa. Pris - £8.99

Llyfr gan Adam Yn Yr Ardd i annog plant a rhieni i fynd i arddio



Mae'r garddwyr adnabyddus a phoblogaidd o Ddyffryn Aman, Adam Jones, yn cyhoeddi ei lyfr gyntaf i blant - Dere i Dyfu (Y Lolfa). Mae Adam yn wyneb ac yn llais cyfarwydd i nifer, gyda slotiau cyson ar Prynawn Da, Heno a BBC Radio Cymru ac mae e hefyd

wedi datblygu presenoldeb sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 18,000 o ddilynwyr ar Instagram (@adamynrardd)!

Dechreuodd Adam Jones arddio pan oedd yn 3 oed gan ddilyn diddordeb ei dad-cu, ac erbyn hyn mae ganddo dros 20 mlynedd o brofiad.

Erbyn hyn mae ganddo ei ardd ei hunan ac mae'n tyfu llysiau, ffrwythau a pherlysiau, yn ceisio byw bywyd sy'n hunangynhaliol.

"Rwy'n gobeithio bydd y llyfr yn rhoi hyder garddio i blant a'u rhieni, ac i athrawon hefyd. Does dim angen i arddio fod yn gymhleth - mae'n medru bod yn rhan syml ond pwysig o'n bywydau. Mae garddio'n ffordd wych i ni deimlo'n agos at fyd natur, i ymlacio, i gynhyrchu bwyd a jyst joio! Rwy'n gobeithio bydd Dere i Dyfu yn ysbrydoli cenhedlaeth newydd o blant i arddio mewn modd sy'n parchu'r amgylchedd ac yn dod â mwynhad a hapusrwydd iddyn nhw hefyd."

Garddwyr o Sir Gaerfyrddin yw Adam Jones. Mae Adam yn rhannu'r gwaith garddio ar ei gyfrif Instagram ac mae'n cynnal sesiynau garddio mewn ysgolion ac i grwpiau cymunedol ledled Cymru.

Mae Dere i Dyfu gan Adam Jones ar gael nawr. (£6.99, Y Lolfa)

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWC
SHEILA BEYNON
Y RHEOLWRAIG
01994 230855



MENTER NEWYDD I GEFNOGI POBL SIR GÂR SYDD YN DIODDEF O GANCR A SALWCH SY'N CYFYNGU AR FYWYD

1AF RHAGFYR, 2021:

Mae grwp o fobl o'r un anian wedi dod ynghyd yn Sir Gâr er mwyn lawnsio ANGOR sydd yn aros am statws elusennol gan gynnig gwasanaeth sy'n cefnogi pobl a chancr. Yn fuan bydd yn elusen fydd yn cefnogi pobl a chancr a salwch sydd yn cyfyngu ar fywyd gan estyn llaw a bod yn angor iddynt o bwynt y diagnosis. Mae gan y grwp dros 30 mlynedd o brofiad yn y maes ac yn cynnwys arbennigwyr clinigol, defnyddwyr gwasanaeth a gwirfoddolwyr.

Nododd Deris Williams, sy'n wirfoddolwr bod y cysyniad am Angor wedi cychwyn 15 mlynedd yn ol pan welwyd yn glir bod galw am barhad gofal a lles. Mae'r gofal presennol yn dilyn triniaeth yn methu a chwrdd a phob gofyn a dyna lle mae Angor yn anelu am lenwi'r gwagle.

Cefnogi'r gan Nigel Owens, y cyn ddyfarnwr rygbi rhyngwladol, mi fydd Angor wedi ei leoli mewn canolfan galw i fewn agored i'r cyhoedd ar safle Pentre Awel, a fydd yn agor yn 2023. Mi fydd yn cynnig gwasanaeth yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol, yn ymarferol gyda chefnogaeth emosiynol i gleifion sydd yn cael ei effeithio a chancr a salwch sydd yn cyfyngu bywyd gan gynnig cyngor a chefnogaeth i'w teuluoedd. Ateggodd Nigel Owens, : 'Mae gan Angor le arbennig yn fy nghalon gan wybod yn iawn y cymorth sydd angen ar gleifion a'u teuluoedd mewn cyfnod anodd iawn.

Yn arwain at agoriad swyddogol y ganolfan galw i mewn mi fydd adnoddau a chymorth ar gael ar wefan Angor, yn ogystal yn ystod 2022 y nod yw cynnal gwasanaeth cefnogi ar hyd a lled Sir Gâr. Mi fydd y gwasanaeth cychwynnol yn cynnig cyngor, arwyddo at gymorth a therapi.

Am wybodaeth a manylion pellach am adnoddau gellir ymweld a'r wefan ar angor.org.uk neu ar Gweplyfr angor.org. Os ydych a diddordeb mewn gwirfoddoli croeso i chi gofrestru ein gwefan.



Canolfan Galw Mewn Lles Cymunedol

Croeso Cynnes

Dewch I ymuno â ni yn ein canolfannau galw heibio newydd sbon i gael cefnogaeth, gyngor neu am sgwrs

Neuadd Cofeb Hendy Gwyn Dydd Mercher 9yb-12yh

07956835140

carrie-ann@mindcarmarthen.org.uk

www.mindcarmarthen.org.uk



Neuadd Y Scowtiad Sanclêr Dydd Mawrth 9yb-12yh

07956835140

carrie-ann@mindcarmarthen.org.uk

www.mindcarmarthen.org.uk



Cyfraniadau

Eifion a Meinir Griffiths, Penffordd	£100
Mel Jenkins, Hendygywn	£20
Dorothy Jenkins, Hendygywn	£20
Kevin a Sarah Roberts, Llangynin	£20
Dennis a Jean Jones, Efailwen	£10
Llinos Thomas, Llangynin	£10
Janet Wheeler, Efailwen	£5

Diolch yn fawr

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS

a'i Feibion

TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589



Aeres Williams
Hyfforddwraig Gyrru
Glandy Cross, Clunderwen
Ffôn: 01994 419711
Sumudol: 07969 501551
aeresannadi@hotmail.co.uk



O dan yr amgylchiadau presennol, mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn gweithio i ddarparu gweithgareddau a sesiynau i chi allu parhau i gymdeithasu a byw yn Gymraeg yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth parthed cyfyngiadau. Wrth i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol rydym eisiau clywed eich syniadau chi: <https://tinyurl.com/7jaty8dt>

Sesiynau stori:

Yn San Clêr ar ddydd Mercher yn Y Gât ar y 10fed a 24ain o Dachwedd a'r 8fed o Rhagfyr. Bydd y sesiynau yn cychwyn am 10:30yb ym mhob lleoliad. Ymunwch â ni mewn sesiwn stori ac ychydig o ganu. Mae'n angenrheidiol i bawb gofrestru o flaen llaw. Cysylltwch gyda gwawr@mgsg.cymru i gofrestru.

Coffi a Chlenc:

Mae'r sesiynau yma sydd wedi cael eu cynnal ers cychwyn y cyfnod clo yn parhau. Dyma gyfle i ddod ynghyd i sgwrsio a chymdeithasu dros baned bob bore dydd lau am 10.30yb ar Zoom. Mae'r weithgaredd yma yn addas ar gyfer dysgwyr neu siaradwyr rhugl. I dderbyn y linc cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru.

Clybiau Darllen:

Mae Menter Gorllewin Sir Gâr yn trefnu dau glwb darllen sy'n cwrdd unwaith y mis ar Zoom. Mae clwb darllen i oedolion yn cwrdd bob yn ail nos Fawrth y mis am 7yh a chlwb darllen i ddysgwyr yn cwrdd ar nos Fawrth olaf pob mis am 7yh. Dyma gyfle i ddod ynghyd i gymdeithasu a thrafod nofelau cyfoes. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru

Nadolig!

NEWYDD! Helfa Drysor Nadolig:

Mae'r Fenter a'r Atom yn trefnu rhywbeth ychydig yn wahanol dros yr Ŵyl eleni. Byddwn yn creu Helfa Drysor Nadoligaidd ar hyd Stryd y Brenin, Caerfyrddin yn ystod yr wythnosau yn arwain at y Nadolig. Cadwch lygaid ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth cyffrous.

NEWYDD! Noson Gyd-goginio Nadolig:

Ymunwch â ni am noson arddangosfa parseli selsig a llugaeron a sesiwn cyd-goginio boncyff siocled ar Zoom gyda Lloyd Henry ar yr 8fed o Ragfyr am 7yh, am ddim. I gofrestru, cysylltwch gyda ceris@mgsg.cymru.

Cyfryngau Cymdeithasol:

Gyda'r cyfyngiadau yn newid o hyd, mae gwaith y Ffenter yn newid gydag amryw o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu cynnal ar-lein. Am y diweddaraf, ewch i'n cyfryngau cymdeithasol:

Facebook - Menter Gorllewin Sir Gar

Trydar - @MenterGSG

Instagram - @MenterGSG

E-bost - ceris@mgsg.cymru neu am fwy o wybodaeth ar sut i gyrraedd y platfformau yma cysylltwch gyda Ceris ar y ffôn: 07939 962042.



CYNLLUN PEILOT I FEITHRIN SGILIAU HYRWYDDO CERDDORIAETH GYMRAEG

Mae PYST, Menter Gorllewin Sir Gâr, AM a Dydd Miwsig Cymru yn cydweithio ar gynllun peilot i fethrin sgiliau hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg.

Bwriad y peilot, a fydd yn cael ei gynnal rhwng mis Tachwedd eleni a Dydd Miwsig Cymru yn mis Chwefror 2022, yw rhoi cyfle i bobl ifanc 16-19 oed ddatblygu sgiliau fydd yn arwain at griw yn trefnu gig yn ardal Caerfyrddin ar Ddydd Miwsig Cymru, tra bydd criw arall yn datblygu sgiliau hyrwyddo digidol gyda gwefan ac app AM i adlewyrchu gweithgaredd celfyddydol yr ardal. Bydd y cyfleon hyn ar gael i unrhyw un o fewn ardal Caerfyrddin sydd â diddordeb. Yn ystod y cyfnod peilot bydd cyfres o weithdai yn cael eu harwain gan PYST, AM, Menter Gorllewin Sir Gâr ac arbenigwyr eraill lleol i fentora ar bob agwedd o drefnu gig a hyrwyddo digidol. Ymysg yr arbenigwyr eraill fydd yn cyfrannu at y gweithdai bydd Gruff Owen (Recordiau Libertino), Gwenllian Anthony (Adwaith), Aled Thomas (Beast PR), Owain Williams (Gŵyl Newydd) ac Elan Evans (Clwb Ifor Bach). Y gobaith yw, os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus, y bydd modd ehangu'r cynllun i gymunedau eraill ar draws Cymru.

Yn ôl Lea Glyn ar ran PYST ac AM:

"Roedd cerddoriaeth byw wedi diflannu o nifer o gymunedau ar draws Cymru hyd yn oed cyn y pandemig, felly mae hi yn allweddol ein bod yn edrych tua'r dyfodol a sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf y sgiliau â'r hyder i gynnal gigs Gymraeg o fewn eu hardal. Yn yr un modd mae'n bwysig bod cyfleon hygyrch ar gael i bobl ifanc fynegi a chreu drwy blatfform digidol i adlewyrchu creadigrwydd eu cymunedau"

Dywedodd Dewi Snelson ar ran Menter Gorllewin Sir Gâr:

"Mae'r peilot yma yn gyfle gwych i bobl ifanc weithio a chael eu mentora gan arbenigwyr yn y maes. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i fod yn rhan o'r prosiect. Mae gwir angen y prosiect yma ar yr ardal er mwyn sicrhau hyrwyddwyr y dyfodol, rhoi cyfleon i artistiaid chwarae ac i'r cyhoedd glywed cerddoriaeth byw yn lleol"

Dylai unrhyw berson ifanc yn ardal Caerfyrddin sydd â diddordeb gysylltu drwy ebostio post@pyst.net.

Am fwy o fanylion: lea@pyst.net

Euros Jones, Llechwedd ger Capel Newydd

Daeth gair o gydymdeimlad a theyrnedau lu o bedwar ban byd o glywed am farwolaeth sydyn a chynamserol Euros nos Fawrth, 19eg Hydref gan fod ganddo gysylltiadau ac adnabyddiaeth eang mewn amryw o fannau, yn enwedig yng Ngwlad Groeg, Ynys Cyprus a'r Wladfa Gymraeg yn yr Ariannin. Treuliodd Euros ac Eluned sawl cyfnod o wyliau hapus yng nghwrs y blynyddoedd yng Ngwlad Groeg ac Ynys Cyprus, gan fwynhau i'r eithaf yng nghwmni hwylus y brodorion lleol.

Ond, bu'r dair mlynedd ddedwydd a dreuliodd y ddau ohonynt ymhlith Cymry Patagonia yn goron ar bob profiad arall. Ymdaflodd y ddau i fywyd cymdeithasol prysur y Wladfa o'r dechrau cyntaf, gan gyflawni bob math o ddyletswyddau gwahanol, ac yn eu mysg bod yn Siôn Corn yn y gwres tanbaid yng nghanol yr haf ym mis Rhagfyr (!), heb sôn am gynorthwyo Eluned Gonzalez yn ei chegin yn y Gaiman i goginio cannoedd o bice ar y maen! Ac un o gymwynasau olaf y ddau, ychydig cyn colli Euros, oedd cyfrannu swm sylweddol iawn o arian i hybu addysg Gymraeg yn ysgolion y Wladfa, lle bu Eluned yn athrawes ymroddedig uchel ei pharch. Enaid aflonydd a direidus bu Euros erioed gan fyw bywyd i'r eithaf a gwneud y gorau o'i fywyd yn unol â'i ffordd ef o wneud, heb ddilyn unrhyw ganllawiau na chyfarwyddyd.



Euros ac Eluned wrth droed yr Andes

Fe'i magwyd ar aelwyd Bryn Cemaes, Glan-rhyd yn fab i'r diweddar Barchedig T. R. a Marina Jones, ac wedi cyfnodau byr yng Ngholeg Cyncoed, Caerdydd a Choleg y Normal, Bangor ymsefydlodd yn Caeriw yn ne Sir Benfro gan gyflawni amryw o swyddi gwahanol.

Yna, ym mis Awst 1986 dychwelodd i Ogledd y Sir i fod yn bobydd gan gymryd drosodd y siop nwyddau lleol ym mhentref Maenclochog sef, Siop y Sgwâr. Roedd Euros wrth ei fodd yn coginio ac yn mwynhau gwylio rhaglenni coginio o bob math ar y teledu. Roedd ganddo ddiddordebau eang ac ar dop y rhestr roedd criced. Bu'n allweddol i sicrhau maes criced o'r safon uchaf yn Glandy Cross gan ofalu amdano gyda gofal arbennig iawn a oedd yn destun edmygedd aelodau o feysydd criced eraill yn y sir.

Bu hefyd â diddordeb mewn prynu a thrwsio hen geir yn enwedig ceir Morris 1000 a cheir Jowett.

Bu dylanwad a delfrydau'r Urdd yn amlwg arno a'i wneud yn genedlaetholwr pybyr gan garu Cymru a'r Gymraeg yn angerddol. Byddai wrth ei fodd yng nghanol gweithgareddau Aelwyd Crymych yn ei ieuenctid mewn nosweithiau llawen, rhaglenni nodwedd ac mewn dramâu. Pwy all anghofio ei ddynwared gafaelgar o Elvis unwaith ar lwyfan y Genedlaethol?

Dathlwyd ei fywyd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth ddydd Gwener, 29ain Hydref a pharhau gyda'r gymdeithas o amgylch y byrddau yng Nghaffi Beca, lle bu yn naturiol, llawer iawn o hel atgofion ac ail-fyw straeon y gorffennol. Derbynnir rhoddion er cof am Euros tuag at Ganolfan Iechyd Crymych a Threfdraeth drwy law Kenneth Davies a'i feibion, (Ymgwymerwr Angladdau), Blaenwern, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7NQ

Cydymdeimlwn gydag Eluned yn ei phrofedigaeth a'i hiraeth ynghyd ag Emyr, Kathy a Kane yn eu colled. Fe gofiwn am Euros gyda gwên a oedd mor nodweddiadol ohono ynghyd a'i ddywediadau bachog a doniol. Coffa da amdano.

Eirian Wyn Lewis

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelldre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G & S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clynderwen. SA66 7TX
Ffôn: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg
881630 www.trefigin.cymru 881282



**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT


♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf



Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr,
diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land
Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr
fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lâr - Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30**
**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**
**Heol yr Orsaf,
San Clêr**





**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**



Rhagfyr		Nifer y dyddiau	...Mai		Nifer y dyddiau
Sad 4	Nadolig Windsor	2	Llun 16	Lock, Stock a'r BBC	5
Sad 11	Nadolig Longleat	2	Sad 21	Sioe Gerdd - School of Rock, CMC	1
Gwe 17	Stereophonics a Tom Jones	1	Llun 23	Gwesty Warner - Neuadd Alvaston	5
Sad 18	Stadiwn y Principality, Caerdydd		Iau 26		
Sad 18	Siopa Nadolig Trago Mills, Merthyr	1	Gwe 27	Ed Sheeran, Stadiwm Principality	1
Iau 23	Nadolig yn Bournemouth	5	Sad 28	Sioe Gerdd - Singin' in the Rain, CMC	1
			Sad 28		
Ionawr 2022			Mehefin		
Gwe 21	Riviera Lloegr - Cynheswr y Gaeaf, Gwesty Palace	4	Gwe 10	Caerfaddon a Briste	4
Sad 22	Sioe Gerdd	1	Mer 15	Diwrnod y Merched - Royal Ascot	3
	The Lion, The Witch & The Wardrobe, CMC		Sad 18	Gwibdaith Sir Benfro	1
Chwefror			Sad 25	Yr Alban - Dumfries a Galloway	7
Gwe 18	Riviera Lloegr - Cynheswr y Gaeaf, Gwesty Palace	4	Gorffennaf		
Ebrill			Sad 9	Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC	1
Llun 4	Efrog - 'A Ramble in the Shambles'	5	Llun 11	'From a Lofty Height to the Isle of Wight'	5
Sad 9	Sioe Gerdd - We Will Rock You, CMC	1	Maw 19	Sioe Frenhinol Cymru	1
Maw 26	Lord of the Dance 25, Theatre Newydd, Caerdydd	1	Mer 20		
Sad 30	Strictly Come Dancing - Y Dawnswyr Proffesiynol	1	Iau 21	Llandudno	5
Mai			Awst		
Sad 7	Sioe Gerdd - Six The Musical, CMC	1	Llun 1		
Sad 7	Saffari Siocled	2	Mer 3	Eisteddfod Genedlaethol	1
Llun 9	Iwerddon - Sligo a'r 'Wild Atlantic Way'	6	Gwe 5		

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!!



Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol



DYDDIAD	TEITHIAU 2022	PRIS	DIWRNODAU
Gwener 14 -17 Ionawr	Penwythnos Aduniad yn WESTON SUPER MARE	£210	4 Diwrnod
Gwener 21 -24 Ionawr	Penwythnos yng Ngwesty Belgrave Sands TORQUAY	£210	4 Diwrnod
Gwener 28 -30 Ionawr	PENWYTHNOS YN LLUNDAIN	£199	3 Diwrnod
Iau 3 - 6 Chwefror	Rygbi y Chwe Gwlad IWERDDON v CYMRU yn DULYN	£349	4 Diwrnod
Gwen 11 - 14 Chwefror	Penwythnos yn GWESTY QUEENS, PAIGTON	£240	4 Diwrnod
Llun 21 - 24 Chwefror	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	???	4 Diwrnod
Llun 28 Chwef - 4 Maw	Amser Hamddenol yn STREET	£275	5 Diwrnod
Gwener 4 -7 Mawrth	DARTMOOR ac ARFORDIR DE DEVON	£275	4 Diwrnod
Sadwrn 12 -15 Mawrth	GOGONEDDAU ARFORDIR CERNYW - St AGNES	£270	4 Diwrnod
Sul 13 - 14 Mawrth	NOSON YN GWESTY WALDORF, LLUNDAIN	£185	2 Ddiwrnod
Gwener 18 -20 Mawrth	CLIVE a'I FFRINDIAU yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£215	3 Diwrnod
Gwener 25 -28 Mawrth	PENWYTHNOS CABARET YN TORQUAY	£250	4 Diwrnod
Llun 28 Maw - 1 Ebrill	Prydferthwch SOUTH DOWNS yn BOGNOR REGIS	£335	5 Diwrnod
Iau 31 Maw - 4 Ebrill	MÔRDAITH GWATWAROL LLANDUDNO	£425	5 Diwrnod
Iau 7 - 11 Ebrill	CAEAU BLODAU'R ISELDIRIEDD	£495	5 Diwrnod
Gwener 8 - 11 Ebrill	PENWYTHNOS I Ymlacio yn DULYN	£345	4 Diwrnod
Gwener 22 - 25 Ebrill	PENWYTHNOS YN GWESTY BELGRAVE SANDS TORQUAY	£299	4 Diwrnod
Llun 25 -29 Ebrill	RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU	£450	5 Diwrnod
Llun 2 - 6 Mai	Mordaith llong ar Gamlas LERPWL a MAENCEINION	£465	5 Diwrnod
Gwener 6 - 8 Mai	CRWYDRO TAFARNDAI WETHERSPOONS	£195	3 Ddiwrnod
Gwener 13 - 16 Mai	PENWYTHNOS Braf YN GWESTY PALACE PAIGTON	£300	4 Diwrnod
Sadwrn 14 - 20 Mai	CRWYDRO O AMGYLCH YNYS HARDD JERSEY	£660	7 Diwrnod
Mawrth 17 - 19 Mai	MEN & MOTORS 1V	£265	3 Diwrnod
Sul 22 - 25 Mai	PUDDING CLUB (Noson blasu pwddinau) & COTSWOLDS	£345	4 Diwrnod
Iau 26 - 28 Mai	SIOE FLODAU CHELSEA	£299	3 Diwrnod
Llun 30 Mai - 2 Mehef	LLANDUDNO - Croeso Twymgalon Gwesty'r Tynedale	£370	4 Diwrnod
Sul 5 - 10 Mehefin	IWERDDON - KERRY	£600	6 Diwrnod
Llun 6 - 9 Mehefin	DARGANFOD GERDDI DORSET	£360	4 Diwrnod
Llun 13 - 17 Mehefin	Ales and Haunted Tales of LANCASHIRE	£435	5 Diwrnod
Mawrth 21-28 Mehefin	YNYS Hudolus ORKNEY a Chastell MEY CAITHNESS yr ALBAN	£900	8 Diwrnod
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFORDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau
Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
01994 240908
www.tafvalleycoaches.co.uk



Cyfarchion yr Ŵyl



Bendith yr Ŵyl i'r teulu, cymdogion a ffrindiau a Blwyddyn Newydd well. - **Tony a Meinir Eynon, Penbontbren, Cwm-Miles.**

Dymuna **Brian John, Rose Cottage, Cwmfelin Mynach** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gwsmeriaid, teulu a ffrindiau.

Dymuna **Marlene Lewis, Hafan Glyd, Pwll Trap, San Clêr** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau. Pob hwyl dros yr Ŵyl.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau, a pherthnasau - **Peter a Menna Lewis, Dinbych y Pysgod.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a ffrindiau oll. **Dewi Griffiths, Cartref Clyd, Lôn Hafren, San Clêr.**

Dymuna **Glyndwr Davies, Cartref Carreglwyd**, gynt o Llysmeini, Llangynin Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu, ffrindiau a chymdogion.

Dymuna **Meurig a Pat Davies, Llygad yr Haul, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Gerwyn a Martha Griffiths, Blaencorse** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl deulu, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Dorothy Jenkins, Gwynfa, Hendygywyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Pob hwyl dros yr Ŵyl.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau oddi wrth **Gareth ac Angela Murray, 2 Piccadilly, Llanboidy.**

Dymuna **Nin Lewis, Russell ac Ann Thomas, Bro Dderwen, Clunderwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd o iechyd da i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Rodney ac Eiry Williams, Yr Hen Ffatri Bop, Llanboidy.**

Dymuna **Wyn a Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Merle Evans, Delfryn, Llanboidy.**

Nadolig Llawen a iach a dymuniadau gorau am y Flwyddyn Newydd i bawb. **Brenda Bowen a'r teulu, Blaen-dôl-Frwynog, Llandissilio.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm ffrindiau, perthnasau a chymdogion. **Henry Morris 1 Rock House, Llandissilio.**

Dymuna **Susan, Maes y Werin, Llanboidy** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau. Boed i heddi yr Ŵyl eich cyffwrdd i gyd a bydded i chi lawenhau yn y cofio a'r dathlu.

Dymuna **Mr Tom Morris, Awenydd, Rhiw'r Orsaf, San Clêr** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gymdogion, ffrindiau a pherthnasau oll.

Dymuna **Teulu, 25 Gorsfach, Pwlltrap** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Mair Eynon, Awel-Dêg, Glandy Cross** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau gyda iechyd ac hapusrwydd yn y flwyddyn newydd.

Dymuna **Roy Reynolds, Tymore, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau. - **John a Megan Phillips, Croeso, Pwlltrap.**

Dymuna **Eurfyl, Jill, Ifan, Elen a Tomos, Lluest, Llanglydwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

Dymuna **Norah Heseltine** ddanfon cyfarchion yr Ŵyl i'w pherthnasau a ffrindiau.

Cyfarchion y tymor i'r teulu, cymdogion a ffrindiau - oddi wrth **Llinos a Geraint, Carreglwyd, Llangynin.**

Cyfarchion yr Ŵyl i'n cymdogion, ffrindiau a'r teulu oll. Oddi wrth **Eileen John a Graham, Marlowe, Gerddi'r Ffynnon, Hendygywyn.**

Dymuna **Margaret a Dion, Cilowen, Login** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a pherthnasau.

Dymuniadau gorau am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd i'n teuluoedd, cymdogion a ffrindiau wrth **Elfed ac Eifiona Lewis, Llysoed, Llangynin.**

**Canolfan Gymdeithasol
Ffynnonwen**

Cyfarchion oddi wrth y swyddogion a'r pwyllgor. Gobeithio yn wir y medrwn ail agor y Ganolfan i bawb yn y Flwyddyn Newydd.

Dymuna **Nansi Evans, Penybont, Cwmfelin Mynach** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chwsmeriaid - oddi wrth **Carwyn, Sarah, Jac a Josh Llanybri**

Cyfarchion yr Ŵyl a dymuniadau gorau ar gyfer y Flwyddyn Newydd i'm teulu a ffrindiau. Pob bendith - **Merle Jenkins, Maesybryn, San Cler.**

Dim cardiau eleni, rhoi cyfraniad i Gymorth Cristnogol. Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Roy a Rhoswen, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach.**

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Don a Rita James, Hafan Hedd, Pwlltrap**

Dymuna **Islwyn a Novella, Nantycyw, Trelech** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Simon, Faith, Carys, Dafydd, Kelly, Emily a Noah, Carydd, Clunderwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a dedwydd i'n cymdogion, teuluoedd a ffrindiau oddi wrth **Anthony, Ceirios, Gwilym, Llew ac Owen, Efailwen.**

Dymuna **Mefin Lewis, Huan Aur, Login** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau i gyd.

Dymuna **Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Hoffai **Eira Page, Tŷ Gwyn, Meidrim** ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion a diolch unwaith eto am bob cymorth ar hyd y flwyddyn.

Dymuna **Tudur, Rhodri, Gwyndaf a Nia**, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau - **Richard a Non Murray a'r teulu, Maes-y-Ffynnon, Login.**

Dim yn anfon cardiau Nadolig eleni. Cyfarchion y tymor i'm ffrindiau, cymdogion a pherthnasau. **Mel Jenkins, Ger y nant, Hendygywn.**

Hoffai **Wyn Owens. Llwynhelyg, Mynachlogddu** ddiolch i'w deulu, ffrindiau a holl ddarllenwyr Y Cardi Bach. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

***Dymuniadau Gorau
am y Nadolig
a'r Flwyddyn Newydd***

*Y Cyngorydd
Jean ac Ambrose Lewis
a Gwawr*

Neuadd, Meidrim

Ffôn: 01994 484334

jeanlewis@carmarthenshire.gov.uk



***Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda***

oddi wrth

Y Cyngorydd a

Mrs Dorian Phillips

Dolau Gronw, Llanboidy

Hendygywn ar Daf

Ffôn: 01994 448435

bdjphillips@carmarthenshire.gov.uk

Cyfarchion y tymor a dymuniadau gorau i'm ffrindiau, a chymdogion i gyd wrth **Sally Davies, Lluest, Pwll Trap.**

Cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a chymdogion oll - **John Arfon Cilhaul, Hendygywn ar Daf.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion. Diolch i bawb am eu caredigrwydd. **Doreen Adams, Llain Alaw, HDG.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau - **Geraint a Beti James, Coedllys.**

Dymuna **Mary Llewellyn, Garth, Login** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, a ffrindiau oll.



Hwyl yr Ŵyl ...



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Mae cacen Nadolig Mam-gu Iet-wen yn gymesur.
Cwblhewch y llun ac anfonwch lun digidol ohono at Mam-gu Iet-wen.
Tybed pa un fydd ei hoff lun?



Nadolig Llawen!

Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 6/1/22

Ateb Cystadleuaeth Mis Hydref:

Enwau'r pwmpenni oedd Mellten, Sgrech, Sws, Diflas, Cariad, Tawel, Diogyn a Llawen.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2021



Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi yn y rhifyn nesaf.



PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus iawn i'r brawd a chwaer yma. Roedd Freddie yn 1 oed ar Dachwedd 16eg a bydd ei chwaer fawr Penny yn 3 oed ar Ragfyr 22ain. Llawer o gariad oddi wrth Mami a Dadi.

Penblwydd hapus iawn i'r ddwy chwaer yma o Feisgyn. Fe fydd Efa-Grug yn naw oed ar y 27ain o Dachwedd a'i chwaer Mari Elli yn saith oed ar yr 2il o Ragfyr. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Betsi Haf, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin. Xxx



Penblwydd hapus yn flwydd oed i Hughie Evans, Heol-y-gaer, mab annwyl Nathan a Julia a brawd bach, Danny ac Ollie, a chefnider cariadus i Gwenna a Cadi.



Penblwydd Hapus i Elspeth Scott Robinson a oedd yn 6 oed ar Hydref 23ain ac i'w chefnider Cai Alexander Booth yn 6 oed hefyd, ar Dachwedd 27ain. Yn y llun hefyd mae Taliesin, brawd mawr Elspeth oedd yn dathlu'i benblwydd ef yn 9 oed ar Fehefin 3ydd. Maent yn blant i Siriol a Nia, gynt o Garnwen, Llangynin. Cyfarchion cynnes iawn a chariad mawr i chi'ch tri, wrth Grannie, Grampa a Li.



Penblwydd hapus iawn i Gwen Rees o Tymawr, Pentregalar, Crymych oedd yn 4 oed ar Tachwedd y 30ain. Cariad mawr wrth, Mam, Dad, Megan, Lleucu, Mamgu a Dadcu Golygfa'r Cwm, mamgu a dadcu Tymawr a'r teulu i gyd xx



Penblwydd hapus i Llew Owen-Jenner a fydd yn bedair mlwydd oed ar Dachwedd 18fed. Cariad mawr, oddi wrth Mamgu a Dadcu Efailwen a'r teulu i gyd.



CHWARAEON - Clwb Rygbi Hendy Gwyn ar Daf

Sefydlwyd Clwb Rygbi Hendy Gwyn ar Daf yn 1886, 135 mlynedd nôl. Chwaraewyd y gemau gartref ar Barc Dr Owen tan 1973, pan symudwyd i Barc Llwyn Tŷ Gwyn, ar gyrion y dref. Mae'n anodd credu bod bron i hanner canrif wedi mynd ers hynny.

Mae'r clwb wedi profi cryn lwyddiant dros y blynyddoedd a maent yn falch iawn o'r ffaith bod pedwar chwaraewr rhyngwladol, a dau Lew o ran hynny, sef Mike Phillips, Jonathan Davies, Alan Reynolds a James Davies wedi bwrw eu prentisiaeth gyda'r clwb.



Daeth Mike Phillips nôl o Dubai yn ddiweddar, er mwyn hybu ei lyfr "Half Truths". Manteisiodd ar y cyfle i dalu cymwynas nôl i'r clwb, gan droi mas i chwarae drostynt yn erbyn Aberystwyth.

Daeth cynulleidfa luosog o dros 750 i gefnogi, gyda Mike yn chwarae rhan flaenllaw yn y gêm, gan sicrhau buddugoliaeth wych o 26 pwynt i 17.

Asgwrn cefn pob clwb rygbi llwyddiannus yw criw selog a ffyddlon o wirfoddolwyr, yn cael eu harwain gan bwyllgor ymroddgar a swyddogion brwdfrydig sef :-

Llywydd - Gilbert Williams
Cadeirydd - Wayne Ebsworth
Ysgrifynyddes - Suzanne Davies
Trysorydd - Paul Kirk

Capten y tîm yw'r bachwr Marc Jones, sydd bellach wedi cyflawni'r rôl am y cyfnod hira yn hanes y clwb - llongyfarchiadau mawr i Marc ar ei gamp.

Mae'r clwb yn chwarae yng nghynghrair Adran 1 y Gorllewin ac yn ymarfer bob nos Lun a nos Iau am 7 o'r gloch.

Ail ddechreuodd y gyngrair ym mis Tachwedd ond bu'r bechgyn yn chwarae mewn cystadleuaeth Plat i glybiau yn ardal H1 ym mis Medi ac Hydref. Dyma'r canlyniadau :-

Medi
11eg Hendy Gwyn 10. Abergwaun 15

18fed Crymych 25. Hendy Gwyn 5
25ain Aberdaugleddau 5. Hendy Gwyn 28

Hydref.

2il Hendy Gwyn 36 Penfro 14
9fed Dinbych y Pysgod 18 Hendy Gwyn 20
23ain Hendy Gwyn 26 Aberystwyth 17

Trechwyd Aberteifi o 29 pwynt i 11 yn rownd 1 Cwpan Sir Benfro hefyd.

Adran 1 y Gorllewin
Tachwedd 13eg Hendy Gwyn 13 - Crymych 12

Dyma'r gemau tan diwedd y flwyddyn :-
Tachwedd 27ain Aberystwyth v Hendy Gwyn Rhagfyr.

4ydd: Penfro v Hendy Gwyn
11eg: Hendy Gwyn v Llangennech
18fed: Tregwyr v Hendy Gwyn

Mae gan y clwb dim rygbi merched hefyd, sy'n chwarae yn Adran 1 Cynghrair Cymru. Maent yn ymarfer ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn bob nos Iau am 6 o'r gloch.

Dyma enwau'r merched sydd wedi chwarae i Gymru:

Capiau llawn
Natalie Bowen • Sioned Harries • Jenny Hawkins
Vicky Owen

O dan 20
Sioned Harries • Cath Davies • Ffion Jones
Chloe Howells

O dan 19
Sara Davies

O Dan 18
Amy Morgan • Katy Thicker • Hattie Davies • Swyn

Hefyd tîm ieuenctid sy'n chwarae yng Nghynghrair Sir Benfro ac yn ymarfer bob nos Iau ar Barc Dr Owen am 6.30 o'r gloch a timau merched dan 13, 15 ac 18, sy'n ymarfer ar Barc Dr Owen bob nos Fercher am 6 o'r gloch.

Mae croeso mawr i ddarpar chwaraewyr ymuno gyda ni bob amser.



Tîm Rygbi Hendy Gwyn 2021

Dymuna papur bro Y Cardi Bach bob llwyddiant
i Glwb Rygbi Hendy Gwyn am y tymor.

Eurfyl Lewis
Lluniau gan Paul Rodgers